GWLAD YR IESU

ANTHROPOS.

Gwobr Arholiadau 1924.

Mile End Road.

Richard Glyn Lloyd

GWLAD YR IESU.

Melus odiaeth yw ei heddwch,
Anghydmarol ei brydferthwch :
Ynddo'n rhyfedd cyd-lewyrcha,
Dwyfol fawredd a mwyneidd-dra.

D. Charles, Caerfyrddin.

GWLAD YR IESU.

HEOL Y DIODDEFAINT.

Gwlad yr Iesu.

GAN

ANTHROPOS.

CAERNARFON:
CYHOEDDEDIG GAN GWMNI'R WASG GENEDLAETHOL
GYMREIG (CYF.)
—
1903.

Cyflwynedig

i

Goffadwriaeth

Fy Nhiweddar ac Anwyl Gyfaill,

y

Parch. John Rogers, B.A.

GAN YR UN AWDWR.

Gwroniaid y Ffydd. 1/-

Oriau yn y Wlad. 1/-, 1/6.

Awel a Heulwen. 1/-

Cadeiriau Enwog. 1/-

Cyhoeddedig gan
Gwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig,
Caernarfon.

AT Y DARLLENYDD.

GWESTIWN digon naturiol i'w ofyn i awdwr llyfr newydd ydyw,—"Pa beth yr ydwyt ti yn ei ddywedyd drosot dy hun?" Yn bersonol, nid oes genyf nemawr i'w draethu am danaf fy hun. Nid dyma y waith gyntaf i mi fod yn curo wrth ddrws y cyhoedd; ac hyd yma y mae y cyhoedd hwnnw wedi bod yn bur garedig.

Ond y waith hon, yr wyf yn ymddangos gerbron y darllenydd gyda llyfr gwahanol i'r rhai blaenorol.

Dichon y dylwn ddweyd gair neu ddau am dano, cyn ei ollwng allan i'r byd. Yn gyntaf, am ei enw,—"Gwlad yr Iesu." Ni fwriedir iddo fod yn llawlyfr daearyddol. Y mae genym eisioes amryw lyfrau wedi eu hysgrifenu o'r safbwynt hwnnw, gan wŷr cyfarwydd a medrus: pobl wedi cael y fraint o weled a theithio y Tir Sanctaidd drostynt eu hunain.

Ond y mae neges y llyfr hwn yn wahanol. Gŵyr y darllenydd am emyn ragorol y dïweddar Eryron Gwyllt Walia:—

"Bydd gwel'd gogoniant Iesu,
A chofio'r mannau bu."

Dyna oedd genyf mewn golwg pan yn ysgrifenu y llyfr hwn—"cofio'r mannau bu:" y lleoedd hynny sydd wedi eu hanfarwoli yn hanes a bywyd yr Iesu.

Gallaf ddweyd fod yr hyn a ysgrifenwyd yn ffrwyth myfyrdodau sydd wedi bod yn myn'd a d'od drwy fy meddwl er's llawer o flynyddau. Tybed y byddant yn

rhyw gynorthwy i feddyliau eraill i dreulio ambell awr yn ngwlad yr Iesu? Y mae llawer o'n pobl ieuainc yn astudio gwers-lyfrau, ac yn parotoi ar gyfer arholiadau yn y meusydd hyn. Ond dichon y bydd llyfr fel hwn yn fantais i dderbyn argraffiadau nad ydynt yn perthyn yn hollol i esboniadaeth fanwl a maith. Y mae angen am y naill a'r llall. Ceir llyfrau sydd yn traethu ar flodau a llysiau, ac yn ein dysgu am fanylion eu bywyd, a'u hanes. Ceir llyfr arall yn ein harwain i'r fan lle y tyf y blodau; ac yn peri i'w persawr adloni ein hysbrydoedd. Dyna fel y dywed Pantycelyn am "dir Emmanuel"—gwlad yr Iesu,—

> "Gilead a'i haroglau pur
> Bereiddiodd aweł Canaan dir."

A dyna amcan fy llyfr,—ceisio arwain y darllenydd i'r awyrgylch honno—at y peraroglau sydd yn cael eu cludo ar adenydd yr awel falmaidd, ysbrydoledig, a chwyth dros fryniau Canaan, oddiar Rosyn Saron a lili y dyffrynoedd.

Hyderaf y bydd y darluniau a geir yn y llyfr yn rhyw fantais i'r darllenydd i feddwl am y "mannau" y bu yr Iesu yn rhodio ar hyd-ddynt; ac yn eu gwneyd yn enwog ar gyfrif Ei gyffyrddiad personol â hwy.

Bydded iddo Ef wneyd yr un gymwynas a'r awdwr, ac a'r darllenydd, ag a wnaeth à dau o'i ddisgyblion gynt. "Ac wedi hynny yr ymddangosodd Efe mewn gwedd arall i ddau ohonynt, a hwynt yn ymdeithio, ac yn *mynedi'r wlad*."—Gwlad yr Iesu.!

Dyna ydyw dymuniad diffuant

YR AWDWR.

Awst, 1903.

RHESTR O'R DARLUNIAU.

Tud.

Heol y Dioddefaint (*Via Dolorosa*) ... Y wyben-ddalen.

Bethlehem ... ... xv.

Ephrata 5

Nazareth 13

Capernaum 23

Jerusalem 41

Yr Iorddonen 47

Un o Ddinasoedd Sidon 51

Mynydd y Gweddnewidiad... ... 63

Jerusalem a'r Deml 71

Bethania... 75

Heol yn Jerusalem 81

Gethsemane 89

Mor Tiberias..... 101

Mynydd yr Olewydd 110

"Iesu! difyrwch f'enaid drud
Yw edrych ar dy wedd;
Ac mae llyth'renau d'enw pur
Yn fywyd ac yn hedd.

Pantycelyn.

CYNWYSIAD.

Tud.

AT Y DARLLENYDD ... ... ix.

BETHLEHEM.. 1

"Awn hyd Bethlehem."

NAZARETH 12

"A ddichon aim da ddyfod o Nazareth?"

CANA GALILEA 22

"Felly yr Iesu a ddaeth drachefn i Cana yn Galilea."

YN CAPERNAUM 33

"Ac wedi dyfod yr Iesu i mewn i Capernaum."

O JERUSALEM I PEREA 43

"A'r gauaf oedd hi."

TYRUS A SIDON 53

"Ac a aeth i gyffiniau Tyrus a Sidon."

MYNYDD Y GWEDDNEWIDIAD ... 61

"Ac a'u dug hwy i fynydd uchel o'r neilldu."

Tua.

IESU YN BETHANIA. 70

"*A phan oedd efe yn Bethania.*"

Y DDWY ARDD 88

"*Lle yr oedd gardd.*"

WRTH FOR TIBERIAS 100

"*Ac fel hyn yr ymddangosodd.*"

O LETHRAU'R OLEWYDD 108

"*Ac efe a'u dug hwynt allan hyd yn Bethania.*"

"Y DYN CRIST IESU" 121

"*Ac un Cyfryngwr . . . . . y dyn Crist Iesu.*"

YR IESU'N FWY NA'R HANES ... 141

"*Eithr y pethau hyn a ysgrifenwyd.*"

BETHLEHEM.

GWLAD YR IESU.

BETHLEHEM.

"*Awn hyd Bethlehem.*"—LUC II. 15.

"*Ac wedi agor eu trysorau, a offrymasant iddo anrhegion: aur, thus, myrr.*"—MATH. II. 11.

"ATHITHAU Bethlehem, tir Juda, nid lleiaf wyt" . . . Felly yr oedd wedi bod er's canrifoedd. Pentref distadl, di-ddylanwad: heb ynddo na gorsedd na llys. Ond y mae dyfodiad yr Iesu wedi gweddnewid ei hanes. Nid lleiaf wyt, nac a fyddi mwy. Daeth yn un o'r mannau amlycaf, mwyaf dyddorol. Lle bynag yr ä hanes yr Iesu, crëa awyddfryd yn meddyliau dynion sydd yn dweyd yn ei iaith, "Awn hyd Bethlehem." Beth sy'n cyfrif am hyn? Nid y lle ynddo ei hun; ond yr Hwn a anwyd yn Geidwad dyn. "Canys o honot ti y daw Tywysog." "Hwn a fydd mawr."

"Mawr yn Methl'em."

Nid dyna ben draw y daith. Yr oedd y preseb yn arwain i'r Groes. Gorsaf gyntaf ei fywyd Ef oedd Bethlehem—y "geni'n dlawd." A'i gael mewn dull fel dyn.

YR YMWELWYR.

Yr ydym wedi cyfuno yr adroddiad a roddir gan y ddau efengylydd—Mathew a Luc—am ymweliad y Bugeiliaid a'r Doethion â phreseb Bethlehem.

"Doethion a bugeiliaid hwythau,
Ddaethant i'w addoli Ef."

Dyna'r ymwelwyr cyntaf. Y maent yn cynwys y pell a'r agos, gwlad Judea a'r byd cenhedlig. Y maent yn cynrychioli dau ddosbarth mewn cymdeithas.

Yr oedd y Bugeiliaid yn perthyn i'r dosbarth cyffredin: gwerin gwlad. Arweinient fywyd tawel, digyffro, yn y maesydd, gan wylio eu praidd liw nos. Nid oeddynt wedi derbyn nemawr o fanteision. Ni cheid hwy yn ymgymysgu â bywyd prysur y ddinas a'r dref. Ychydig a wyddent am helyntion teyrnasoedd: nid oedd cwestiynau cymdeithasol yn blino eu meddyliau. Yr oedd eu cylchdro yn fychan a syml. Ni wyddent am foethau a golud, ac nid oedd uchelgais aflonydd yn cyffroi eu bywyd. Yr oeddynt yn

cynrychioli y dosbarth cyffredin: plant llafur yn mhob oes a gwlad. Y mae bywyd y rhai'n, lawer adeg, yn eithaf caled a dioleuni. Y mae eu baich yn drwm a blinderus. Nid oes ond ychydig oleuni a chysur yn disgyn ar eu llwybr. Ond yr oedd dyfodiad yr Iesu i Bethlehem yn dwyn gobaith gwynfydedig i'r dosbarth lluosog hwn—"Ganwyd i *chwi* Geidwad."

Perthynai y Doethion i ddosbarth arall. Yr oeddynt hwy yn cynrychioli meddwl, gwybodaeth, a dyhead y byd cenhedlig. Y mae traddodiad yn caru eu desgrifio fel tywysogion o uchel fri: brenhinoedd wedi d'od o wlad bell i geisio Brenhin yr holl ddaear. Gall hyn fod; ond yr hyn sydd yn gosod mwyaf o werth ar eu hanes ydyw—agwedd eu meddwl. Yr oedd meddwl dyn wedi deffro yn fore yn y Dwyrain. Yno y dechreuwyd holi natur am ei chyfrinion, ac yno y daeth dyn i astudio ei harweddau allanol. Clywir adsain o'r cwestiynau hyn yn llyfr Job. Yr oeddynt yn holi pobpeth yn y nef a'r ddaear: holi ser a chreigiau, y mynydd a'r môr. Pa le y ceir doethineb? Dyna oedd eu hanes ar hyd yr oesau—chwilio am wirionedd. Nid oeddynt yn cyfrif eu hunain yn Ddoethion: yr oll a ddywedent

ydoedd eu bod yn *caru* doethineb, ac yn ymofyn am dani. Ond yr oedd dyfodiad yr Iesu yn cyfarfod ag awyddfryd y dosbarth hwn. Gellir dweyd wrth feddylwyr y byd, yr ymofynwyr am y gwir a'r perffaith, "Ganwyd i *chwi* Geidwad."

YR ARWEINYDDION.

Dyna hanes y Bugeiliaid a'r Doethion. Daethant i Bethlehem dan arweiniad a chyfarwyddyd oedd a'u ffynhonell y tu allan iddynt hwy eu hunain. Ac yr oedd ffurf yr arweiniad yn cyfateb i amrywiaeth eu meddyliau. *Seren* i'r Doethion; *angel* a chenadwri i'r Bugeiliaid.

"Gwelsom ei seren ef," ebai y Doethion. Efrydwyr y ffurfafen oeddynt hwy. Yn mysg eu cyn-dadau y daethai seryddiaeth yn wyddor. Hwy fu yn rhoddi enwau ar ser y nef. Ac y mae yr enwau hynny yn aros hyd heddyw. Cyfrol y ffurfafen oedd eu Beibl hwy. Yn rhôl y llyfr hwn yr oeddynt yn darllen, ac yn dyfalu. Gwnaethant lawer camgymeriad. Pa ryfedd? Nid oedd ganddynt ddim ond goleu egwan y ser a'r planedau. Ond yn y goleu hwn yr oeddynt wedi d'od i feddwl fod yna ryw Un mawr i ymddangos yn y byd. Ni wyddent yn mha

EPHRATA. *Photo—Bonfils.*

le, ond yr oedd pelydr o'r dyfodol wedi llewyrchu ar eu disgwyliadau. Ac yn "nghyflawnder yr amser," tywynodd goleuni cryfach ar eu llygaid. Y mae rhai o honynt yn canfod seren newydd, ac yn ei galw—ei Seren Ef. Seren Bethlehem! Pa un ydoedd? Ai un o ser y cysawd heulog a gafodd ei gwneyd yn fynegfys i'r Doethion? A welwyd hi drachefn? Ai seren newydd-grëedig oedd hi, wedi cael ei bôd i'r pwrpas hwn? Mae llawer o swyn yn y dybiaeth. Yr oedd yn werth creu seren i oleuo'r ffordd dros yr anial at yr Iesu. Yn ngeiriau Islwyn,—

" Gwelir Seren drà rhyfeddol,
Ar ffurfafen nef yn awr,
Mae y doethion wedi darllen
Iachawdwriaeth yn ei gwawr:
Maent yn penderfynu deall
Diwedd ei chenhadaeth lon,
Seren o gyfundraeth henaf
Cariad Dwyfol ydoedd hon.

" Pasiodd heibio'r llys brenhinol,
Pasiodd heibio'r ddinas fawr,
Mae yn sefyll uwch Ephrata,
Ar Ephrata llif ei gwawr!"

Ond i'r Bugeiliaid yr oedd yr arweinydd yn wahanol. Ni fuasai gweinidogaeth ddistaw, awgrymiadol y seren yn cyfateb i'w meddyliau hwy. Yr oedd yn rhaid wrth rywbeth

mwy pendant a chyffrous. Ac y mae hynny yn cael ei gynyrchu gan ymddangosiad yr angel, y disglaerdeb oedd o'i amgylch, a'r genadwri a drosglwyddid ganddo. Y mae pobpeth o ddeutu yr olygfa hon yn glir a diamwys, ac nis gallai lai na chreu cyffro yn yr edrychwyr. Ac yr oedd yn rhaid gwneyd hynny: deffro eu heneidiau, agor dorau eu hystafelloedd. Ac yna y mae gwirionedd newydd yn cael ei fynegi iddynt—newyddion da o lawenydd mawr. Yr oedd pobpeth yn glir a phendant. Nid oedd angen i'r Bugeiliaid ofyn, Pa le y mae? Yr oedd y manylion wedi eu rhoddi iddynt, a'r cwbl oedd ganddynt i'w wneyd ydoedd dilyn y cyfarwyddyd —gweled drostynt eu hunain.

Yn raddol y daeth y Doethion at yr Iesu. Seren fud a amneidiodd arnynt i gychwyn ar eu hynt. Tebyg iddynt fod am fisoedd ar eu taith. Credir iddynt dd'od trwy lawer o beryglon ac anhawsderau. Ac ar y goreu, nid oedd eu gwybodaeth ond aneglur. Yr oeddynt dan orfod i ofyn yn barhaus, Pa le? Ond y maent yn teithio ymlaen, ac o'r diwedd yn d'od i wyddfod Goleuni y Byd.

Ond am y Bugeiliaid, yn sydyn a disymwth y daeth y weledigaeth nefol iddynt hwy.

Cawsant eu cymeryd *by surprise.* Ac yn yr ysbryd yna y cawsant yr Iesu. Onid yw yr hanes yn llefaru eto? Yn araf, mewn dwysder a distawrwydd, y mae rhyw ddosbarth yn cael eu harwain at Wirionedd. Y maent yn gorfod teithio liw nos. Ond y mae seren ffydd yn tywys i Bethlehem, ac o'r diwedd hi a saif uwchben y lle y ganwyd Iachawdwr y Byd.

Y mae eraill, fel y Bugeiliaid, yn cael eu galw drwy ryw weinidogaeth arbenig, yn sydyn a disymwth, i oleuni Gwirionedd. Y mae cyffro a braw yn cael ei gynyrchu yn eu calonnau: rhyw ddisglaerdeb sydd yn gwneyd y lle a'r cyfnod yn gofiadwy am byth. Llawer dull, llawer modd; ond diben yr oll,—y cyffrous a'r tawel,—y daith bell, neu y goleuni disglaer, ydyw arwain ato Ef.

Y NEGES.

"Awn hyd Bethlehem"—dyna fyrdwn y daith. Yr oeddynt wedi d'od o wahanol wledydd, yn perthyn i wahanol gylchoedd o fywyd: yr oedd yna wahaniaeth mawr yn eu meddyliau a'u dirnadaeth, ond canolbwynt y naill a'r llall ydyw Bethlehem Juda.

"A hwy a welsant." Nid dyfalu yr oeddynt—nid dilyn lledrith dychymygol. Yr oedd

y ffaith o flaen eu llygaid. "Hwy a welsant y mab bychan wedi ei rwymo mewn cadachau, a'i ddodi yn y preseb." Onid yw symledd yr olygfa yn profi mawredd y Gwrthrych? Pe arwr rhamant fuasai yn cael ei ddarlunio, gallesid disgwyl mwy o rwysg ac ysblander. Gwelsid ef mewn palas, a gosgordd o bendefigion o'i amgylch. Ond yr hyn a welodd yr ymwelwyr hyn ydoedd preseb, a baban wedi ei rwymo mewn cadachau! Ac eto y mae yr olygfa yn eu gwneyd yn addolwyr yn y fan. "Hwy a'i haddolasant ef." Canfu y Bugeiliaid eu Ceidwad, a'r Doethion eu Brenhin, yn y Baban oedd ar liniau Mair!

Ceir y Doethion yn agor eu trysorau, ac yn cyflwyno anrhegion brenhinol,—aur, thus, a myrr. Dyna drefn y gwasanaeth: addoli ac offrymu. Yr addoliad oedd sail yr offrwm. Yr oedd gan y Doethion offrymau drûd, — cynyrchion gwerthfawrocaf y Dwyrain. Rhoddasant eu goreu i'r Iesu.

Nid oedd y pethau hyn gan y Bugeiliaid. Pobl dlodion oeddynt hwy. Nid oedd aur, thus, a myrr, yn eu meddiant. Pa fodd y gallent hwy dalu gwarogaeth i Faban Bethlehem? "A hwy a gyhoeddasant y gair a ddywedasid wrthynt." Yr oedd yr angel

wedi d'od a'r efengyl i'r ddaear, ac y mae'r Bugeiliaid yn ei lledaenu ar bob llaw. Aeth y Doethion yn ol i'w gwlad ar hyd ffordd arall; aeth y Bugeiliaid yn ol at eu dyledswyddau cyffredin yn y maes. Ond yr oedd yr ymweliad â Bethlehem, ac â'r preseb, yn aros yn eu calon a'u cof,—

"Gwerthfawr drysor,
Yn y preseb Iesu a gaed."

NAZARETH.

"A ddichon dim da ddyfod o Nazareth?
A Phylip a ddywedodd wrtho—
'Tyred a gwêl.'"—IOAN I. 46.

"YN y dechreuad" ydyw gair cyntaf y bennod hon; ac y mae yn air desgrifiadol o'i chynwys. Pennod o ddechreuadau ydyw. Yn y rhanau olaf, rhoddir hanes dechreuad gweinidogaeth yr Iesu. Y mae'r distawrwydd maith yn cael ei dorri: blynyddau neillduaeth Nazareth wedi d'od i ben. Tystia Ioan Fedyddiwr iddo wēlēd un tebyg i Fab Duw yn wynebpryd yr hwn ddaeth ato ar lan yr Iorddonen. "Wele Oen Duw." O hynny allan, nid Ioan ond Iesu sydd yn do'd yn ganolbwynt yr hanes. "Rhaid iddo ef gynyddu." Swynir dynion i'w bresenoldeb. Dyna'r disgyblion cyntaf. Y mae eu hanes yn dechreu mewn cyffyrddiad — cymundeb personol â'r Iesu. Nid yn yr un dull neu fodd. Ceir rhyw neillduolrwydd yn yr alwad sy'n adlewyrchu eu cymeriadau hwy eu

NAZARETH.

Photo—Bonfils.

hunain. Y mae un dosbarth yn chwilio am yr Iesu yn ngrym rhyw awyddfryd distaw oedd yn eu meddyliau; eraill yn cael eu harwain ato gan y sawl oedd yn ei adwaen o'r blaen; eraill yn cael eu galw yn ddigyfrwng ganddo Ef ei hun. Llawer dull, llawer modd: ond yr un Gwrthrych. Yr oedd y gwahanol lwybrau, fel pelydrau'r goleuni, yn cyfarfod yn yr un canolbwynt.

Y DISGYBLION CYNTAF.

Yr oedd Ioan yn y dosbarth blaenaf. Aeth efe at yr Iesu yn ngrym rhyw ddyheuad oedd yn ei galon. Derbyniwyd ef i gyfrinach y Gwaredwr. Canfu ei Ddwyfoldeb yn ngoleuni ei ymddiddanion. Nid rhyfedd fod Efengyl Ioan yn rhoddi cymaint o le i eiriau yr Iesu. *Gair*, nid *gwyrth*, a'i gwnaeth ef yn ddisgybl iddo.

D'od ar sail tystiolaeth, ar bwys cymhelliad un arall, wnaeth Simon. Nis gwyddom pa faint o waith perswadio a gafodd Andreas, ond fe ddaliodd ati nes cyrhaedd ei amcan. "Ac efe a'i dug at yr Iesu." "A'r Iesu wedi edrych arno." "Edrych"—yr oedd hwn i fod yn air mawr yn ei hanes dyfodol. Yr oedd llawer temtasiwn yn ei aros, ond nid

oedd i fyned o ŵydd yr Athraw. "Ti a elwir Petr"—dyn y graig. Yr oedd cryn waith arno cyn y delai yn llon'd yr enw. Ond yr oedd yr enw newydd yn *ernes* o'r cymeriad newydd oedd efe i'w etifeddu fel Apostol yr Oen.

Yr Iesu ei hun sydd yn galw Phylip. Efe a'i cafodd, ac Efe a'i galwodd. "Dilyn fi." Ac yr oedd digon o awdurdod yn y gair hwn i'w wneyd ef yn ddisgybl yn y fan. Galwad ddigyfrwng. Dichon fod rhywbeth yn nodweddu y disgybl oedd yn gofyn am i'r Iesu arfer y dull hwn. Dichon na fuasai neb arall yn gwneyd y tro. Felly y bu gyda Saul o Tarsis, ac eraill ar ei ol. Ond beth bynag fyddo ffurf yr alwad, yr un ydyw ei hystyr—"Dilyn fi."

NATHANAEL.

Yr oedd Phylip yn byw yn Bethsaida, cartref Andreas a Phetr, ond yr oedd ganddo gyfaill hoff yn Cana Galilea. Ei enw oedd Nathanael. Yr oeddynt wedi cymdeithasu llawer â'u gilydd: wedi bod yn cyd-efrydu Ysgrythyrau yr Hen Destament, ac yn chwilio pa bryd, a pha ryw amser, yr oedd yr addewid am Fessia i gael ei chyflawni. Ac yn ngwres ei frwdfrydedd, y mae Phylip yn

myned ar daith i Cana i weled ei gyfaill, ac i ddweyd y newydd da oedd wedi d'od i'w feddiant. Ac wedi cyrhaedd pen ei siwrnai, y mae yn dechreu adrodd y ffaith. "Cawsom yr hwn yr ysgrifenodd Moses yn y gyfraith, a'r proffwydi, am dano, Iesu o Nazareth" . . . .

Onid Phylip oedd y blaenaf i ddefnyddio yr enw yma? enw dieithr, annisgwyliadwy. "A thithau, Bethlehem, tir Judah" . . . oedd geiriau y broffwydoliaeth. Ond nid yw Phylip yn son dim am Bethlehem. "Iesu o Nazareth" ydoedd iddo ef.

Profodd yr enw hwn, ar y cyntaf, yn faen tramgwydd i Nathanael. "A ddichon dim da ddyfod o Nazareth?" A oes rhywbeth yn hynodi y lle hwnnw heblaw ei ddinodedd? A oes hanes i broffwyd godi yno mewn unrhyw oes? Ac a ydyw yn debyg, ïe, yn bosibl, i'r Proffwyd Mawr dd'od o'r pentref mynyddig yna—Nazareth? Gallem feddwl am dano yn dyfod o Jerusalem, neu un o ddinasoedd Juda, ond—Nazareth! A ddichon hyn fod? Nid ydyw Phylip yn ceisio ateb y cwestiwn hwn. Ond y mae yn gwneyd peth arall llawer gwell. Anoga ei gyfaill i wneyd ymchwiliad drosto ei hun,—myn'd a'i gwestiwn

at yr Iesu. Addawa fod yn gydymaith iddo, —"Tyred a gwel." "Tyred,"—nid "Dos." Yr oedd amheuaeth Nathanael yn onest a difrifol. Ymofynydd pryderus am y Gwirionedd. Prawf o hynny ydyw ei gydymffurfiad ewyllysgar â chais ei gyfaill. Daeth at yr Iesu—"Iesu o Nazareth." Nid yw yn dweyd gair. Yr Iesu ei hun sydd yn tori ar y distawrwydd. Dywedodd Efe air oedd yn cyrhaedd i ddyfnder bywyd Nathanael. "Israeliad yn wir!" Nid yn y golwg, ond yn y galon. Gwyddai beth oedd ymdrech am y fendith. Yr oedd Peniel yn ei fywyd yntau. Disgwyliai yn ddyfal am ddiddanwch yr Israel. Nid oedd cysgod rhagrith ar ei feddyliau, na dichell yn ei ysbryd. Dyna dystioliaeth yr Iesu, ac yr oedd Nathanael yn ymwybodol ei fod Ef yn darllen ei galon, ac yn deall ei feddwl o bell.

Y DISGYBL CUDDIEDIG.

"Cyn i Phylip dy alw di, pan oeddit dan y ffigysbren, mi a'th welais di." Cyfeiria y geiriau hyn at ei fywyd blaenorol. Hoff ydoedd o neillduaeth. Yr oedd ei feddwl yn dra gwahanol i ysbryd ei oes. Cyhoeddusrwydd oedd eilun y Phariseaid — cael eu gweled gan ddynion. Chwilient am y lle-

oedd mwyaf amlwg yn y synagog: y prif gadeiriau, &c. Nid oedd eu crefydd yn ddim ond ymddangosiad a sŵn.

Ond yr oedd Nathanael yn caru yr encilion. Bod dan y ffigysbren oedd ei hyfrydwch. Yr oedd y ffigysbren yn Israel yn ddarlun o dangnefedd a hedd. Pan fyddai y bobl yn mwynhau cysuron gwladol, darlunir hwy yn eistedd bob un dan ei ffigysbren ei hun. Y mae rhyw ysbrydiaeth dangnefeddus yn meddianu dyn dan gysgod pren tewfrig, a'r awel yn süo yn y dail. Nid rhyfedd fod y Beibl yn son cymaint am goed y maes yn nglyn â saint yr oesau. Gwelir Abraham yn eistedd dan y dderwen yn Mamre; Elias y Thesbiad yn gorphwys o dan y fërywen, a Nathanael o dan ei ffigysbren ei hun.

Nid yno y treuliai ei holl amser. Y tebyg yw fod ganddo yntau ei alwedigaeth, ei orchwyl beunyddiol. Perthyn i'r dosbarth yna yr oedd disgyblion yr Iesu. Nid oedd Nathanael yn bendefig, neu yn berchen ystad ehang, ond yr oedd ganddo ei ffigysbren. Ac yn y llanerch honno, dan ei ffigysbren, y treuliasai efe oriau melusaf ei fywyd. Nid oedd dynion yn gwybod dim am dano, o bosibl; ond iddo ef yr ydoedd yn ddaear sanctaidd.

Yno y bu yn efrydu yr Hen Destament, ac yn dilyn cwrs yr Addewid Ddwyfol. Yr oedd parthlen Datguddiad o'i flaen, ac yntau yn olrhain y gorsafoedd,—rhodfeydd y Brenhin. Cenfydd Ef yn d'od ar hyd llwybrau rhuddgoch y cysgodau: gwel ei oleuni ar fryniau Proffwydoliaeth. "Wele fi yn dyfod." Ac y mae rhyw ddisgwyliad angerddol yn llosgi yn ei galon. Pa bryd yr ymddengys "Seren" Jacob—"Blaguryn" Esaiah—"Haul" Malachi?

TYSTIOLAETH YR IESU.

"Mi a'th welais di." Yr oedd Efe wedi canfod yr hyn oedd yn guddiedig i bawb arall. Yr oedd y drafodaeth yn llyfr sêliedig i bawb, yn ol tyb Nathanael ei hun. Nid felly! Yr oedd yr Iesu yn y gyfrinach, a'i lygad yn gweled y dirgelion oll. Ac yr oedd yr olygfa yn ei foddhau Ef. Canfu lawer o bethau ar ein daear ni oedd yn tristau ei galon. Gwelodd ragrith wedi benthyca gwisgoedd sancteiddrwydd; anghrediniaeth yn mysg ei frodyr ei hun; tŷ ei Dad wedi ei halogi, a'i droi yn dŷ marchnad. Ond dyma olygfa oedd yn cymeradwyo ei hun i'w feddwl Ef. Gwelodd ynddi wirionedd a phurdeb: calon

ddidwyll, ddiblygion, yn ymdrechu am y fendith.

Ac yr oedd hyn yn werth ei ddatguddio, ei ddwyn i'r golwg. Mewn neillduaeth distaw yr oedd Nathanael wedi treulio ei oes; ond nid yno yr ydoedd i aros. Yr oedd ei fywyd cuddiedig i gael ei wneuthur yn amlwg. Ac wrth ddatguddio y disgybl, yr oedd yr Iesu yn datguddio ei hun,—"Ti yw Mab Duw: ti yw Brenhin Israel."

Dengys y drafodaeth, yn y diwedd, fod Nathanael wedi ateb ei gwestiwn ei hun. Cafodd afael yn y gwirionedd mai nid fel yr edrych dyn yr edrych Duw; a bod y daioni penaf a ddaeth i'r ddaear hon wedi dyfod o Nazareth!

CANA GALILEA.

"*Felly yr Iesu a ddaeth drachefn i Cana yn Galilea, lle y gwnaeth efe y dwfr yn win. Ac yr oedd rhyw bendefig yr hwn yr oedd ei fab yn glaf yn Capernaum.*"—IOAN iv. 46.

YMAE'R Iesu yn ymweled â mangre lle yr oedd wedi bod o'r blaen. Yr oedd ysbaid o amser wedi myned heibio, ac yn ystod yr adeg yr oedd Efe wedi bod yn Judea a Samaria. Yn y cyfwng yna y cofnodir yr ymddiddan â Nicodemus, ac â'r wraig gerllaw ffynon Jacob. Bellach, y mae yn dychwel i Galilea, ac yn d'od—nid i Nazareth, ond i bentref bychan yn y wlad—Cana Galilea. Yno y cyflawnasai ei wyrth gyntaf, a daeth y lle i feddu ystyr newydd. Cafodd ei godi i sylw gwlad, ac i sylw yr oesoedd oll. Daeth i gael ei adnabod fel y lle y gwnaethai Efe y dwfr yn wîn, ac yr eglurodd ei ogoniant. Ac yn y pentref hwn, yn mhen yspaid o amser, y cyflawnodd Efe ei ail wyrth yn Galilea. Dywedir iddo wneuthur arwyddion yn Jerusalem, ond ni roddir dim manylion am danynt. Y mae yr hyn a

CANA—HEDDYW.

Photo—Bonfils.

wnaed yn Cana, y waith hon, yn cael ei ddesgrifio'n llawn; ac yn cael ei ddynodi fel yr "ail arwydd" a wnaeth yr Iesu.

Y DDWY OLYGFA.

Dyddorol ydyw cyferbynu y ddau amgylchiad—y wyrth gyntaf a'r ail yn Cana Galilea. Yr oedd yr olygfa yn dra gwahanol: y tro cyntaf yr aeth yr Iesu i Cana, swn llawenydd oedd yn adsain drwy y pentref—llawenydd priodasol. Dyna oedd pwnc y dydd, ac yr oedd ysbrydiaeth yr amgylchiad dedwydd yn meddianu pob gradd. Ac y mae'r Iesu yn anrhydeddu yr achlysur â'i bresenoldeb. Eisteddodd wrth fwrdd y wledd, a phan ddaeth cwmwl o bryder i ordoi wybren lâs y diwrnod hwnnw, profodd ei hun yn Arglwydd natur, a gwelwyd y gloew ddŵr yn "gwrido yn ngŵydd ei Greawdwr"—"lle y gwnaeth efe y dwfr yn wîn."

Mor wahanol oedd yr olygfa nesaf! Daeth yr Iesu i Cana eilwaith, ond nid gorymdaith briodasol oedd yn myned drwy yr heol. Nid acenion llawenydd oedd yn disgyn ar ei glyw, ond iaith trallod a chyfyngder—rhyw bendefig yn ymbil ar ran ei blentyn oedd yn ymyl tranc.

Dyna'r ddwy olygfa, yn yr un pentref. Y maent yn ddarlun byw o'r elfenau cyfnewidiol sy'n amgylchu ein bywyd. Ar un cyfnod, llawenydd sy'n teyrnasu. Y mae bywyd yn wledd felus. Clywir sain cynghanedd yn yr awelon, a'r llinynau wedi disgyn mewn lleoedd hyfryd. Ond dyna'r haul yn myn'd dan gwmwl; yr hîn yn oeri, a gwynt yr Hydref yn crino'r dail. Aeth tŷ gwledd yn dŷ galar. Yn lle banerau hawddfyd, gwelir llenni tadfyd ar y ffenestri.

Ond er fod yr olygfa yn wahanol, er i dristwch oddiweddyd y llawenydd, profodd yr Iesu yn gymwynasydd yn y naill a'r llall. "Felly yr Iesu a ddaeth drachefn i Cana." Y mae dynion, lawer pryd, yn gweithredu fel arall. Y maent yn eithaf parod i ymweled â ni yn nyddiau hawddfyd, pan fô heulwen Mehefin yn tywynu ar ein pabell. Eisteddant wrth fwrdd y wledd. Ond pan y mae gwîn bywyd yn pallu, a'i gerddoriaeth yn troi yn alarnad, ychydig sydd yn ymofyn am danom:

> "Cyfaill neu ddau a'm cofiant,
> Prin ddau, lle'r oedd gynau gant."

"Câr a chyfaill a yrwyd yn mhell." Ond y mae'r Cymwynaswr Dwyfol yn aros. "Felly

yr Iesu a ddaeth drachefn . . . lle y gwnaeth efe y dwfr yn wîn." Y mae y sawl a fu gydag Ef yn Cana Galilea yn cofio am y peth. Aeth y naturiol yn ysbrydol, yn Ddwyfol yn y fan! Troes y dwfr yn wîn. A dyna a wnaeth Efe yr adeg hon—yn ystod ei ail ymweliad—troi dyfroedd Marah yn wîn gorfoledd—" mor bêr a gwîn Lebanon."

Y PENDEFIG.

Efe yw y cymeriad nesaf. Gelwir ef yn bendefig am ei fod yn dal cysylltiad â'r wladwriaeth, yn swyddog dan y goron, ac yn aelod o'r llys. Yr oedd ei breswylfa yn Capernaum. Gellid meddwl mai nid digwyddiad cyffredin yn ngolwg trigolion Cana oedd dyfodiad gŵr o'i fath i'w plith. Yr oedd ei ymddangosiad ar yr heol yn tynu sylw, ac yn ennyn dyddordeb. Beth oedd ei neges, tybed? Ar y cyntaf, y pendefig, ac nid yr Iesu, oedd yn tynu mwyaf o sylw y pentref. Ond yr oedd ei feddyliau Ef ei hun yn dra gwahanol. Cyflwynai ei hun i'r Iesu, nid fel swyddog gwladol, ond fel ymgeisydd am gynorthwy, am drugaredd. Yr oedd cysgod tywyll wedi disgyn ar ei balas,—y cysgod hwnnw nas gall un llaw ddynol ei droi yn ol! Dyna'r olwg a geir ar y pendefig yn Cana: wedi ei lethu

gan drallod, ac o dan bwys ei ofid yn ymgrymu o flaen yr Iesu.

Ac yn nos ei brofiad y torodd gwawr ei ffydd—ffydd ddiffuant. Nid yw efe yn dweyd "os gelli," neu "os myni"; nid oes cysgod amheuaeth ar ei ymadrodd. Credai fod yr Iesu yn abl i wneyd yr hyn yr oedd efe yn ei ofyn. Ond er fod ei ffydd yn ddiledryw, nid oedd yn gyflawn. Meddyliai fod yn rhaid i'r Iesu ddyfod i bresenoldeb y dioddefydd, ei gyffwrdd â'i law, &c. Nis gallai amgyffred iachâd digyfrwng.

Ac nid yw y fendith yn d'od ar hyd llinell ei ddisgwyliadau ef. "Tyred," meddai'r pendefig. "Dos," meddai'r Iesu. Y mae dy ddymuniad wedi ei gyflawni, dy weddi wedi ei hateb—"Y mae dy fab yn fyw." Disgynodd y gair hwn fel trydan i'w galon, ac y mae yn ei gredu yn llwyr. Aeth yn ol—heb y Meddyg! Beth oedd ganddo? Dim ond *gair*. Gallwn ei ddilyn o ran ein meddwl o Cana i Capernaum. Dichon ei fod yn teithio yn ystod oriau'r nos, drwy ganol unigedd a distawrwydd y wlad. Onid oedd adgofion yn ymrithio ger ei fron? Gwelai ei hun gartref, yn ymyl gorweddle y claf, yn sylwi ar y dwymyn boeth. Beth oedd ei hanes erbyn

hyn? A oedd efe ——? Ond y mae *gair* yr Iesu yn swnio fel telyn arian ar ei glust—"Y mae dy fab yn fyw!" Y mae'r ymadrodd yn rhoddi ynni newydd yn ei gamrau. "A'r gŵr a gredodd." Y mae yn ail-adrodd y geiriau iddo ei hun; ac, er ei syndod, y mae yn clywed lleisiau eraill—yn y pellder—yn dweyd yr un peth. Dyna fintai yn d'od i'w gyfarfod,—ei weision ef ei hun, a'u llygaid yn disglaerio gan lawenydd, ac yn dweyd yn unllais—"Y mae dy fab yn fyw"!

Tybed fod yna berthynas rhwng yr hyn a ddywedodd yr Iesu yn Cana, a'r hyn a wnaed yn Capernaum? Oes, y mae! Cymerodd y naill a'r llall le yr un pryd—ar y "seithfed awr." "Ac efe a gredodd a'i holl dŷ." Yr un gair ag a ddefnyddir am y disgyblion yn Cana Galilea. "A'i ddisgyblion a gredasant ynddo." Nid am dano yn unig, ond ynddo Ef ei hun.

Ac y mae yr un ffydd yn cael ei throsglwyddo i Capernaum, yn gwreiddio, ac yn dwyn ffrwyth lawer. Ceir ambell ynys yn y môr wedi ei gorchuddio â mathau neillduol o blanhigion a llysiau. Nid oeddynt yn perthyn yn wreiddiol i'r ynys ei hun. Daethant yno o ryw gyfandir pell. Pa fodd? Sut

y daeth yr hedyn cyntaf o'r cyfandir i'r ynys? Dichon mai yr awel, neu y corwynt, a'i cludodd ar ei hynt. Efallai mai aderyn—un o'r adar ymfudol—oedd y negesydd, ac a fwriodd yr hâd yn ddiarwybod i ddaear newydd. Ond wedi d'od yno y mae yn egino, ac yn tyfu, nes gorchuddio yr holl ynys. Tebyg ydyw hanes ffydd yn ei pherthynas â meddwl dyn. Planhigyn o fyd arall ydyw—byd gwirionedd a gras. Ond `y mae cyfryngau bychain a syml yn foddion i'w lledaenu. Aeth y pendefig a *gair* gydag ef o Cana i Capernaum, ond yr oedd hwnnw yn air yr Iesu, ac yn air y ffydd. Daeth yn hedyn bywyd newydd—bywyd harddach na blodau'r trofegau ar fynwes yr ynys bell—yr ynys yn y môr.

CAPERNAUM—HEDDYW.

YN CAPERNAUM.

"*Ac wedi dyfod yr Iesu i mewn i Capernaum, daeth ato ganwriad, gan ddeisyfu arno.*—MATH. VIII. 5.

RHUFEINIWR ydoedd y dyn hwn: swyddog milwrol, ac arno ef yr oedd gofal y gatrawd oedd wedi ei lleoli yn Capernaum. Y mae pedwar o bersonau yn dal swydd gyffelyb yn cael son am danynt yn y Testament Newydd. Ac y mae rhywbeth dymunol yn hanes yr oll. Yr oeddynt yn ddynion anrhydeddus ac ehangfrydig. Ynddynt hwy, nid oedd y *dyn* wedi ei golli yn y swyddog. Nid oeddynt yn camddefnyddio eu safle i ddibenion isel ac anheilwng. Y mae yna ryw urddas a swyn yn cylchynu eu hanes o hyd. I'r canwriad a safai wrth y Groes, yr ydym yn ddyledus am un o'r tystiolaethau mwyaf clir i Ddwyfoldeb yr Iesu,—"Yn wir Mab Duw oedd y dyn hwn." Yr oedd Cornelius, canwriad Cesarea, yn ŵr defosiynol. Efe a anfonodd am yr Apostol Petr i Joppa, pan oedd efe yn lletya gydag un Simon, barcer, tŷ yr hwn oedd

wrth y môr. O dan gronglwyd y canwriad hwnnw y cynhaliwyd oedfa gyntaf y Cenhedloedd, oedfa ydoedd o ran ei heffeithiau yn barhad o ddydd y Pentecost, oherwydd "syrthiodd yr Ysbryd Glân ar bawb oedd yn clywed y gair."

Ac y mae'r canwriad a ofalai am y fintai o garcharorion ar y fordaith i Rufain yn dangos mwyneidd-dra nid bychan tuag at yr Apostol Paul. Ymddygai tuag ato, nid fel carcharor, ond fel cyfaill. A phan aeth y llong yn ddrylliau ar draeth Melita, ei air swyddogol ef fu yn foddion i waredu yr Apostol rhag syrthio yn aberth i gynddaredd y milwyr. Ac wedi myned i Rufain, y mae yn debyg ei fod ef yn mysg y rhai a adwaenid fel "saint yn nhylwyth Cesar."

Dyna'r pedwar canwriad. Ond y mwyaf amlwg o'r oll ydoedd canwriad Capernaum. Efe yn unig a ddaeth i gyffyrddiad personol â'r Iesu yn ystod ei weinidogaeth. Ac er fod ei enw a'i hanes blaenorol yn anhysbys, y mae genym fantais arbenig i adwaen y dyn. Gallwn edrych arno yn ngoleuni tair tystiolaeth am dano.

1. Tystiolaeth ei gydnabod yn Capernaum. Yr hyn fu'n achlysur i'w ddwyn i sylw ydoedd

afiechyd peryglus ei was—ei gaethwas. Y mae'r gair yn awgrymiadol. Triniaeth galed, fel rheol, oedd cyfran y *slave.* Ond yr oedd y gŵr hwn yn eithriad. Yr oedd ei gaethwas yn werthfawr yn ei olwg, yn anwyl ganddo, a'i bryder yn ei gylch a barodd iddo anfon at yr Iesu. Nid oedd yn ddigon ëon i fyn'd ei hun: deisyfa ar nifer o henuriaid y ddinas gludo ei gais i'r Gwaredwr. Y maent hwythau yn gwneyd hynny yn ewyllysgar; ond yn dweyd mwy nac oedd efe wedi ei fwriadu iddynt. "Y mae efe yn haeddu." Diau fod ganddynt sail dda i'w geiriau. Ceir dynion yn arfer gormodiaeth am ŵr mawr, lawer adeg, yn ei bresenoldeb. Ond, fel rheol, y maent yn dweyd y gwir yn ei gefn. A gwir felly oedd hwn. Cafodd ei ddweyd yn absenoldeb ŷ dyn. "Y mae efe yn haeddu." Rhaid ei fod wedi ennill eu parch diffuant. Ac yr oedd hynny, ar y cyntaf, yn anhawdd. Yr oedd rhagfarn cryf yn meddwl pob Iuddew at y sawl oedd yn cynrychioli llywodraeth Rhufain. A phan ddaeth y canwriad i Capernaum, hawdd credu fod yna deimlad cryf yn ei erbyn. Edrychid arno gyda llygad amheus. Ond yr oedd ei ddull teg, bonedd-igaidd, o gyflawni ei swydd yn peri i ragfarn wywo, ac y mae edmygedd pur yn llanw ei

le. Ennillodd y canwriad barch y bobl y daethai i gysylltiad â hwy. Gwyn fyd na welid pob swyddog gwladol a chyhoeddus yn efelychu ei esiampl!

Ond heblaw cyflawni ei swydd yn deilwng, y mae y gwr hwn yn parchu iaith a chrefydd y bobl. Astudiodd hanes y genedl Iuddewig, a theimlodd fod mawredd a gogoniant yn perthyn iddi. Daeth yn ddarllenydd dyfal o'r Ysgrythyrau, a gwelodd rywbeth yn yr oraclau dwyfol nad oedd i'w gael yn llenyddiaeth Rhufain. Ac fel canlyniad cofleidiodd y grefydd Foesenaidd, a chymerai ran amlwg yn ei haddoliad a'i gwasanaeth. Nid oedd arno gywilydd o'i broffes. Fel prawf o'i sêl a'i haelioni, adeiladodd synagog ar ei draul ei hun. Gallai y bobl hyn ddweyd yn ddiffoesgni ei fod efe yn caru eu cenedl. "Y mae efe yn haeddu." Dyna dystiolaeth ei gydnabod: y bobl ag yr oedd efe yn byw yn eu plith. Ac ar y cyfrif hwn yr oedd yn werthfawr. Gall y farn gyhoeddus fod yn gyfeiliornus, ambell waith; ond fel rheol, ac yn y pen draw, y mae yn debyg o fod yn iawn. Y mae cymeriad pur ac uniawn yn ennill dynion i'w barchu a'i fawrhau.

2. Tystiolaeth y canwriad ei hun. "Beth yr wyt ti yn ei ddwedyd am dánat dy hun?"

Dyma yr ateb,—"Nid wyf deilwng." Ac yr oedd y rhai'n yn eiriau gonest a diragrith. Nid ffûg na rhodres oedd y tu cefn iddynt, ond calon ostyngedig. Y mae gwir ddaioni, fel gwir fawredd, yn ymdrwsio â gostyngeiddrwydd. "Nid wyf deilwng": Paham y dywedai felly?

(a) Yr oedd yn gwybod mwy am dano ei hun na neb arall. Ac yr oedd ei hunanadnabyddiaeth yn peri iddo gymeryd golwg wahanol ar y pwnc. Dyna hanes pawb sydd yn craffu arnynt eu hunain.

Ac y mae hon *(b)* yn egwyddor sydd yn dilyn pob rhagoriaeth. Y mae'r safon yn codi o hyd. Felly gyda gwybodaeth. I'r graddau y mae dyn yn astudio ac yn meddwl, efe a genfydd fod yna gyfandiroedd nad yw efe wedi sangu ar eu terfynau erioed. Y gwr oedd yn gwybod fwyaf yn ei oes a gyffelybai ei hun i fachgenyn yn casglu cregin ar y traeth, a'r cyfanfor anherfynol yn ymestyn o'i flaen.

Ac felly am bob ymgais foesol—pob cynydd mewn daioni a phurdeb. Y mae'r safon yn codi. Fel y byddai Dr. Saunders yn darlunio y bachgen yn mesur ei hun wrth y goeden, ac yn tori marc yn y rhisgl i ddangos ei dal-

dra. Aeth yno yn mhen y flwyddyn, ac er ei syndod, yr oedd y marc ac yntau yn yr un fan. Meddyliai nad oedd wedi tyfu dim yn y cyfamser. Ond yr oedd wedi anghofio un peth—fod y *pren* yn tyfu, a'r safon wedi codi gydag ef ei hun!

3. Tystiolaeth yr Iesu. "Ni chefais gymaint ffydd." Wedi deall fod y Gwaredwr yn neshau at ei breswylfod, anfonodd y canwriad genhadon eraill—ei gyfeillion agosaf—i gludo neges ato. "Arglwydd, na phoena." Paid trafferthu i dd'od yr holl ffordd. Y mae yna gynifer yn disgwyl am dy gymwynasau. Dywed y gair—a bydd pobpeth yn dda. "Ni chefais gymaint ffydd!" Beth oedd yn gwneyd ffydd y canwriad mor fawr, mor gref? Onid y meddylfryd oedd ynddi am yr Iesu? A syniad ardderchog ydoedd. Milwr oedd y dyn: fel milwr y meddyliai. Yr oedd arliw ei alwedigaeth ar ei feddyliau, yr hyn oedd yn gwbl naturiol. Gwelai ei hun yn rhan o gyfundrefn eang—yr ymherodraeth Rufeinig. "Dyn wyf finnau, dan awdurdod"; ac y mae yr awdurdod honno yn cynwys gallu i wneyd yr hyn sydd o fewn terfynau fy swydd,—gallu i orchymyn, i ddweyd wrth y naill "Tyred," ac wrth un arall "Dos."

Ond canolbwynt yr awdurdod hon ydoedd yr ymherawdwr. Yr oedd ei air ef yn cyrhaedd i gyrion pellaf ei deyrnas. Dim ond iddo ef ddweyd y gair oddiar ei orsedd yn Rhufain, ac yr oedd ei effeithiau yn ymestyn fel tonnau y Werydd o dalaeth i dalaeth, ac o wlad i wlad.

Ond yr oedd yna lu o bethau nas gallai gair ymherawdwr daearol eu cyfnewid o gwbl. Gallai lunio deddfau, symud byddinoedd, goresgyn gwledydd. Ond nis gallai symud plâ neu haint: nis gallai beri i boen a phryder ollwng eu gafael o gymaint ag un o'i ddeiliaid. Ond dyma un oedd yn medru gwneyd hynny! Yr oedd pob elfen yn ddarostyngedig iddo; pob clefyd ac afiechyd yn talu teyrnged i'w air. Dyna feddylfryd y canwriad am yr Iesu, pan oedd eraill yn ymrwystro yn ei gylch, ac yn cau eu llygaid ar ei Ddwyfoldeb. Beth a roddes fôd i'r syniad —y warogaeth ardderchog hon? Ai dychymyg? Nage: cafodd y peth ei fôd yn awyrgylch ffydd. "Ni chefais gymaint *ffydd*." Ac nid rhywbeth disymwth oedd hyn. Yr oedd ei feddwl wedi ei barotoi eisoes. Yn ystod ei arosiad yn Capernaum, yr oedd wedi talu sylw manwl i Ysgrythyrau yr Hen Destament; ac wedi canfod yr Addewid am Un

oedd i fod yn "ddymuniant yr holl genhedloedd," ac i lanw pob dyhead yn nghalon dyn fel y lleinw y môr bob agen a llyn ar ei draeth.

Dyna'r tair tystiolaeth. Y maent yn dra gwahanol i'w gilydd. "Y mae efe yn haeddu," ebai y cyntaf. "Nid wyf deilwng," meddai yr ail. "Ni chefais gymaint ffydd," ebai yr olaf, a'r bwysicaf o'r cwbl. Ond er yn amrywio oddiwrth eu gilydd, nid oes ynddynt anghysondeb. Y maent fel tair llinell yn cyfarfod yn yr un pwynt. Ond y fwyaf o'r rhai hyn ydyw tystiolaeth yr Iesu. Gall y lleill fod yn gamsyniol, ambell waith. Gall tystiolaeth y cyhoedd fod yn gamarweiniol. Y mae llawer cymeriad ardderchog wedi cael ei gollfarnu gan ei oes a'i wlad. Gall dyn gyfeiliorni yn ei syniad am dano ei hun. Ond y mae gair yr Iesu yn derfynol. Nid oes apêl i fod oddiwrtho. Dyna sydd wedi gosod anfarwoldeb ar y canwriad hwn, ac ar ei ffydd—gair yr Iesu.

JERUSALEM. *Photo—Bonfils.*

O JERUSALEM I PEREA.

"*Ac yr oedd y gysegr-wyl yn Jerusalem, a'r gauaf oedd hi . . . Ac efe a aeth drachefn dros yr Iorddonen . . . A llawer yno a gredasant ynddo.*"—IOAN X. 22, 40, 42.

I. JERUSALEM.

"*A'r gauaf oedd hi.*"

YMAE'r geiriau yn awgrymu gwrthgyferbyniad rhwng dau le, a dau fath o bobl. Ceir dau hinsawdd yn yr hanes,—y naill yn oer, a'r llall yn gynhes. Golygfa auafol ydyw y gyntaf. Y mae'r gair a ddywedir am y gysegr-wyl yn meddu ystyr ddofn—"A'r gauaf oedd hi." Dyna hanes crefydd yn Jerusalem. Delw'r gauaf oedd ar fywyd a meddwl y bobl. Beth oedd arwyddion y gauaf?

(a) Ffurfioldeb a Bydolrwydd. Crefydd wedi myned yn ffurf, yn grynswth o ddefodau a seremonïau. Ac yr oedd y cyfan oddiallan yn hytrach nac oddifewn: cyflawniadau difywyd, undonol, a diserch. Llythyren farw

oedd crefydd yn Jerusalem,—yr ysbryd a'r bywyd wedi ffoi. Yr oedd elfen gref o fydolrwydd wedi ei chydgordeddu â chrefydd y dydd. Defnyddid hi fel cochl i ddyrchafiad. Amcan y gwisgoedd llaesion, a'r broffes hir, oedd ennill sedd yn y Sanhedrim, a'r lleoedd goreu yn y ddinas a'r llys.

"A'r gauaf oedd hi." Yr oedd crefydd yn Jerusalem wedi ymddirywio i ffurfioldeb ystrydebol: wedi ei gwneyd yn îs-wasanaethgar i ddibenion bydol, ac i uchelgais ddaearol.

(b) Rhagfarn crefyddol. Yr oedd plaid yn eiddigeddu yn erbyn plaid. Yr hyn a gefnogai y naill a wrthwynebai y llall. Ac yr oedd y naill fel y llall yn credu fod pob gwirionedd wedi ei gau i fewn yn eu cyfundrefn hwy. Traddodiad yr hynafiaid oedd yn eu llywodraethu, ac yr oeddynt yn gaethion i geidwadaeth haiarnaidd. Dyna un o ddrygau mawr Rabbiniaeth. Yr oedd pobpeth wedi ei gysylltu â'u sefydliadau hwy. Os nad oedd yr hyn a ddysgid wedi derbyn sêl eu cymeradwyaeth, yna—nis gallai fod yn iawn. Pan gyfododd proffwyd yn Galilea, nis gallent ei gydnabod. Jerusalem oedd a hawl i godi proffwydi! Yr oedd rhagfarn wedi eu gwneyd yn gûl a chyfyng, wedi eu hamddi-

fadu o'r gallu i dderbyn gwirionedd a goleuni newydd. "A'r gauaf oedd hi," ac yr oedd ei rew a'i farug wedi cloi meddyliau y bobl.

(c) Ysbryd Anghrediniaeth — ysbryd diffydd. Dyna oedd yn treiddio drwy yr awyrgylch. Ymddengys hyn yn rhyfedd ynddo ei hun. Jerusalem! canolbwynt crefydd ysbrydol am lawer oes: y ddinas sanctaidd —dinas Dafydd a'r proffwydi. Jerusalem! gyda'i themi a'i gwasanaeth. "Yno yr esgyn y llwythau." Buasid yn disgwyl i'r ddinas freintiedig hon barhau yn gartref ffydd. Ond fel arall y bu. "At yr eiddo ei hun y daeth, a'r eiddo ei hun nis derbyniasant ef." Yr oeddynt wedi eu meddianu gan ysbryd oer a diffydd. Gwrthodasant y Gwirionedd ei hun. Troisant ymaith oddiwrth Oleuni y Byd.

II. PEREA.

"A llawer yno a gredasant yndao."

Croeswn yr Iorddonen. Awn i dawelwch Perea—o'r ddinas i'r wlad—"i'r man lle y buasai Ioan ar y cyntaf yn bedyddio." Onid yw yr hinsawdd wedi newid eisioes? Nid gauaf sydd yno. Y mae naws Gwanwyn yn y frô. "A llawer a ddaethant ato Ef." Daeth yr Iesu yn ganolbwynt ar unwaith. Ei ymweliad Ef oedd testyn yr ymddiddanion

yn Perea. Y mae yno fywyd newydd, a hwnnw yn troi at yr Iesu, fel y rhosyn at yr haul. Beth sy'n cyfrif am y brwdfrydedd hwn? A oedd yna rywbeth wedi ei flaenori, ac wedi parotoi y ffordd? Y mae'r hanes yn dangos hynny. Nid teimlad y foment oedd y brwdfrydedd hwn: nid cicaion — rhyw dyfiant noswaith. Yr oedd ei wreiddiau o'r golwg, mewn gweinidogaeth oedd a'i hamcan i dywys at yr Iesu, ac i wneuthur yn uniawn ei lwybrau Ef. Adwaenid y llanerch hon yn Perea fel y "lle y buasai Ioan ar y cyntaf yn bedyddio."

Dyma faes ei weinidogaeth gyffrous ef. Ac er fod llais y Bedyddiwr wedi tewi, yr oedd ei adsain yn aros. Y mae dyfodiad yr Iesu yn rhoddi bywyd newydd yn ei eiriau, ac yn eu troi yn wirionedd byw. Daw y bobl i weled ystyr a gwerth ei genadwri onest a chlir. "Ioan yn wir ni wnaeth un arwydd." Nid oedd gwyrthiau yn ei hanes. Nid oes son am dano yn agoryd llygaid y dall, neu yn codi y marw'n fyw. Nid oedd Ioan yn honni y fath allu o gwbl. Cenad syml oedd efe, yn pregethu edifeirwch, ac yn tystiolaethu am Oen Duw. Nid efe oedd y Gwirionedd, ond yr oedd gwirionedd yn ei dystiolaeth. Nid oes ond ychydig o'i eiriau wedi eu

AFON YR IORDDONEN.

cofnodi—dim ond braslun o'i bregethau tanbaid—"yr holl bethau a ddywedodd Ioan oedd wir." Y mae'r gair hwn yn gosod anrhydedd ar lafur y Bedyddiwr. Yr oedd yn genad Gwirionedd. I'r Gwir yr oedd wedi byw: dros y Gwir y bu farw yn ferthyr ffyddlawn.

Dengys y gair, hefyd, fod y bobl hyn yn Perea yn rhoddi gwerth ar y gwir. Llawenychant yn y ffaith eu bod wedi ei gael. D'oedd fawr o bris ar wirionedd yn Jerusalem: ychydig oedd yn ei gredu, ac yn ei ddilyn. Ond yn Perea y mae y gwir yn cael y lle penaf yn meddwl y bobl.

Dyna'r ddwy olygfa; ac y mae eu hystyr yn aros. Y mae hanes Jerusalem a Perea yn cael ei ail-adrodd o hyd. "A'r gauaf oedd hi"—yn Jerusalem. Yno, hen draddodiadau llwydion oedd yn teyrnasu. Ymdaenodd gwywdra ysbrydol dros fywyd y ddinas a fuasai gynt yn ddinas Duw, ac yn llawenydd yr holl ddaear. Y mae'n bosibl i genedl a gwlad fyned i afaelion yr un dirywiad. Gall breintiau uchel, a hanes nodedig, droi yn anfantais ac yn rhwystr. Y mae'n bosibl i feddyliau disglaer gael eu daearoli, ac i'r hyn sydd sanctaidd fyned yn gyffredin a diwerth.

Ond os oedd Jerusalem yn dywell, yr oedd Perea yn oleu. Swn gobaith sydd yn yr hanes. "A llawer yno a gredasant ynddo." Dyma un o adnodau'r gwanwyn, ac y mae blodau ieuainc yn tyfu yn ol ei throed!

Daeth yr Iesu, yr adeg hon, i lanerch oedd wedi cael ei pharotoi ar ei gyfer. Yr oedd Ioan wedi bod yn arloesi y tir, ac wedi rhoddi aradr argyhoeddiad yn y gŵys. Gwnawn yn fawr o bob cyfrwng sydd yn parotoi ffordd yr Arglwydd. Rhoddwn roesaw i bobpeth sydd yn dweyd am dano Ef,—addysg yr aelwyd, yr Ysgol Sabbothol, cymdeithasau sobrwydd a phurdeb, a gweinidogaeth y Gair. Y mae y pethau hyn, fel Ioan yn Perea, yn parotoi y ffordd i'r Adgyfodiad a'r Bywyd.

Ac onid yw yr hanes yn awgrymu ystyriaeth arall? *Fe ddaw yr Iesu i bob Perea.* Fe ddaw i brofi gwirionedd y genadwri, ac i fywhau ymdrechion ei bobl. A phan ddêl Efe, daw yn wanwyn yn ei deyrnas, ac yn haf ar ei waith. "O ddedwydd haf! pa bryd y daw?"

UN O DDINASOEDD SIDON.

TYRUS A SIDON.

"*Ac a aeth i gyffiniau Tyrus a Sidon . . . . Eithr ni allai efe fod yn guddiedig.*"—MARC VII. 24.

"TYRUS a Sidon." Yr oedd safle y dinasodd hyn yn ngogledd-barth Canaan. Ynddynt hwy yr oedd marchnadfa yr hên fyd, ond ciliasai eu gogoniant cyntefig, ac nid oedd ond eu hadfeilion yn aros. Ni ddywedir i'r Iesu fyned i'r dinasoedd hyn: aeth i'r cyffiniau, oddifewn i derfynau y wlad. Wrth wneyd hynny, yr oedd yn myned i le cydmarol neillduedig: gwlad uchel, wedi ei chwmpasu gan fynyddoedd. Ac yr oedd y terfynau naturiol hyn yn peri gwahaniaeth yn mysg ei thrigolion. Ychydig a wyddent am yr hyn oedd yn digwydd yn Jerusalem: nid oedd Phariseaid na Saduceaid yn arfer cyrchu i'r mannau hyn. Yr oedd y lle yn fanteisiol i neillduaeth. Ac yr oedd yr Iesu yn awyddus am hyn. "Ni fynasai i neb wybod" ei fod yno. Yr oedd yn osgoi cyhoeddusrwydd,—yr hyn y mae

plant dynion mor awchus am dano! Cyngor gwladweinydd i ddyn ieuanc ydoedd,—"Cedwch eich hun o flaen y cyhoedd. Peidiwch a gadael iddynt eich anghofio am ddiwrnod. Dyna ddirgelwch llwyddiant." Dichon hynny: ond y mae'r safle yn costio'n ddrûd. Bywyd difäol ydyw. Nid rhyfedd fod ambell un o'r dynion cyhoeddus hyn yn dyheu am neillduaeth, ïe, am ddinodedd—rhyw fangre lle na byddo llygad chwilfrydedd a beirniadaeth yn craffu arnynt yn ddidor.

Ac yr oedd yr elfen hon yn bresennol—yn boenus o bresennol—yn mywyd yr Iesu. Lle bynag yr elai, yr oedd torf yn disgwyl am dano. Ar adegau, ni chaffai Efe a'i ddisgyblion hamdden i fwyta bara. "Ac efe a gyfododd oddiyno, ac a ddaeth i gyffiniau Tyrus a Sidon." Aeth i mewn i dŷ—rhyw dŷ yn y fro, ac ni fynai i neb wybod. Addfwyn ydoedd Efe, a gostyngedig o galon. Y fath ydyw gostyngeiddrwydd daioni. Y mae rhosyn yr anial yn gwrido, yn perarogli, er nad oes llygad dynol yn syllu arno o'i febyd i'w fedd. Ac un felly oedd Rhosyn Saron. Nid oedd yr Iesu yn caru gogoniant trystfawr a diflanedig y byd hwn. Ciliai oddiwrtho i neillduaeth Tyrus a Sidon. Ac ni fynasai i neb wybod. Am ba un o'r Phariseaid y gall-

esid dweyd hyn? Nid oeddynt hwy yn caru yr encilion.

"Eithr nis gallai Efe fod yn guddiedig." Er ei fod yn dymuno hynny—"nis gallai." Paham? Un rheswm ydoedd ei *fywyd* a'i *gymeriad.* "Efe a aeth oddiamgylch gan wneuthur daioni." Ac y mae *daioni* yn sicr o ddwyn tystiolaeth iddo ei hun. Er chwenych ymguddio, y mae rhywbeth yn ei ddatguddio o hyd. Dyna'r blod'yn persawrus yn tyfu o'r golwg, dan gysgod y berth, ond y mae'r awel wrth fyned heibio yn bradychu y gyfrinach. Y mae'r ffrwd yn ymguddio yn y doldir, ond y mae'r glaswellt gwyrdd yn dweyd am ei bendith a'i rhîn. Dyna hanes daioni. Nis gall fod yn guddiedig. Er i Moses ddodi llen ar ei wyneb, nis gellid cuddio y gogoniant oedd yn tywynu drwyddi. Ac yr oedd daioni yr Iesu yn rhy amlwg i fedru ei guddio, hyd yn oed yn y llanerch fwyaf neillduedig. Nis gallai Efe fod ynguddiedig.

Peth arall oedd yn cyfrif am hyn ydoedd *eisiau* ac *angen dynoliaeth.* Daeth Efe i'r byd i geisio y colledig. A dyna'r dosbarth oedd yn ei geisio yntau. Yr oedd angen y byd yn curo wrth ddrws calon yr Iesu. Felly y bu yn yr adeg hon. Er iddo fyned i dŷ, dyna

rywun yn curo wrth y ddor, ac yr oedd yn rhaid agor yn y fan. "Canys pan glybu gwraig" oedd mewn trallod "son am dano." Pa fodd y daeth hi i wybod, tybed? Dywed un awdwr fod yna ryw reddf mewn adfyd sydd yn darganfod cynorthwy mewn modd rhyfedd. Y mae angen a phryder yn deffro galluoedd yr enaid. Yr ydys wedi sylwi mor graff ydyw dynion mewn amgylchiadau o'r fath. Y mae'r awgrym lleiaf yn gosod eu hegnion ar waith. Gwelir hyn yn myd greddf. Doder y blodau dan y gwydr; ond y mae y gwenyn yn debyg o ddeall eu bod hwy yno. Buom yn darllen am y modd y sefydlwyd ysbytty yn Llundain ar gyfer creaduriaid direswm. Y mae ugeiniau o honynt yn cael eu hanafu yn yr heolydd. Flwyddi'n ol, sylwodd meddyg ar gi oedd wedi ei archolli yn dôst o dan olwynion cerbyd. Aeth ag ef i'w *surgery:* golchodd yr archoll, a dododd yr aelod yn ei le. Yn mhen amser, gwellhaodd y truan; aeth ymaith, a thybiai y meddyg ei fod wedi anghofio y cwbl. Ond yn mhen ychydig ddyddiau daeth yn ei ol, gyda chi arall oedd wedi cyfarfod â damwain ar yr heol. Ond beth bynag yw gallu greddf i adnabod cymwynasydd, y mae gallu a threiddgarwch ffydd yn

anwadadwy. "Canys pan glybu gwraig . . . son am dano." Dim ond hynny; ond yr ydoedd yn ddigon i'w thywys ato Ef ei hun. I'r cyfryw un, ac yn ngwyneb y fath neges,—"nis gallai efe fod yn guddiedig."

Yn mhellach, y mae'r gair yn dwyn tystiolaeth glir i *fawredd* a *Dwyfoldeb* yr *Iesu.* Bywyd cyffredin, di-nôd, ydyw etifeddiaeth y rhan fwyaf o blant dynion. Nid ydyw cyhoeddusrwydd yn perthyn i'w gyrfa na'u gwaith. Y mae llawer o honynt yn eithaf defnyddiol, ond nid ydynt hwy eu hunain, na neb o'u cydnabod, wedi breuddwydio am enwogrwydd na chlod; ac wedi iddynt ymuno â'r mwyafrif, nid oes ond glaswellt cyffredin yn tyfu ar fan eu bedd. Ychydig o'r hîl ddynol fedr ddweyd am enwogrwydd fel y dywed Paul am ei ddinasfraint, "Minnau a anwyd yn freiniol." Dywedir am ambell i un, ei fod wedi ei eni i deyrnasu. Y mae tywysogion yn myd meddwl ac athrylith. Dyna wir frenhinoedd y byd. Nis gellir eu cuddio. Erys digon o fywyd yn eu coffadwriaeth i ddymchwel pob carnedd a deflir ar eu henwau a'u gwaith.

Ond am yr Iesu, yn yr ystyr hwn, gellid gofyn yn mhob oes,—"Pwy a gyffelybir iddo

yn mysg meibion y cedyrn?" Y mae hanes ei fywyd a'i ddylanwad ar y byd yn cadarnhau yr ymadrodd—"nis gallai efe fod yn guddiedig."

Gwyddom iddo ymddangos mewn gwlad fechan, neillduedig. Nid yn Rhufain rwysgfawr, nid yn Athen goethedig; ond yn Methlehem Ephrata—y pentref lleiaf yn Judea, a hynny nid yn y palas, ond yn y preseb. Ond yn y dinodedd hwnnw, nis gallai fod yn guddiedig. Gwelwyd bugeiliaid yn y maes yn crynhoi at eu gilydd, gan ddweyd, "Awn hyd Bethlehem." Ac yn fuan wed'yn, mae deddf fawr attyniad y byd moesol yn arwain y Doethion o'r Dwyrain i ofyn y cwestiwn, "Pa le y mae yr hwn a anwyd yn Frenhin?" Yn ei fabandod, yr oedd saint fel Simeon yn gweled iachawdwriaeth yn ei wedd. Pan yn ddeuddeg oed, gwelwyd y Sanhedrim Iuddewig yn synu at ei ddoethineb a'i atebion. Mae'n wir iddo fod am ysbaid o olwg y byd. "Efe a aeth i waered i Nazareth." Ac yno ni wyddid mwy am dano na'r hyn a gyfleid yn yr enw, "Mab y Saer."

Ond nis gallai Efe fod yn guddiedig. Pan ddechreuodd ar ei weinidogaeth gyhoeddus yr oedd ei eiriau a'i weithredoedd fel ffrydiau

gloewon yn cludo y sôn am dano i fŷr cymdeithas. Tystiolaeth ei elynion ydoedd, "Wele aeth y byd ar ei ol ef." Yr oedd nerthoedd y crëad, ysbrydion aflan, clefydau a heintiau, ïe, ac angeu ei hun, yn troi yn genhadon i gyhoeddi gwirionedd y pennill Cymraeg,—

"Ymgrymed pawb i lawr
I enw'r addfwyn Oen,
Yr enw mwyaf mawr
Erioed a glywyd son."

Ymdrechodd gelyniaeth roddi taw ar y tystion. Traddodwyd Ef i ddwylaw anwir. Torwyd Ef o dir y rhai byw. Dodwyd maen ar ei fedd, a gosgordd o filwyr i wylio'r fan. Ond bu Efe yn angeu i angeu, ac yn dranc i'r bedd, oherwydd nid oedd yn bosibl ei atal Ef ganddo. Haws fuasai atal yr haul i godi nac atal yr Adgyfodiad Mawr i dd'od i fyny o byrth y bedd.

Ac mewn oesoedd dilynol, gwnaed pob ymdrech oedd yn bosibl gan frenhinoedd ac ymherawdwyr i lethu Cristionogaeth, ac i ddileu enw ei Sylfaenydd oddiar wyneb y ddaear. Defnyddiwyd y bicell a'r cledd, y groes a'r stanc, ond yr oedd "dull y pedwerydd" yn diffodd angerdd y fflam. "Nis gall

y fflam eu difa hwy." Dyma un nas gellir ei guddio! Paham? Onid yw y ffaith hon yn dystiolaeth i'w Ddwyfoldeb?

Y mae dynion yn myn'd o'r golwg, ac yn diflanu. Y mae niwl yr oesoedd yn cau am danynt, ac afon amser yn cludo eu hanes i ffwrdd. Ond yn ei berthynas â'r Iesu, y mae amser ei hun wedi derbyn ystyr newydd. Ei ymddangosiad Ef yn y cnawd sydd yn lleoli hanes a digwyddiadau y gwledydd. "Hwn —am ei fod yn aros yn dragywydd."

MYNYDD Y GWEDDNEWIDIAD.

"*Ac a'u dug hwy i fynydd uchel o'r neilldu . . . . Ac fel yr oeddynt yn disgyn o'r mynydd . . . daeth ato ryw ddyn, ac a ostyngodd ar ei liniau, Ac a ddywedodd, Arglwydd, trugarha wrth fy mab.*"—MATH. XVII. 1, 9, 14, 15.

YMAE'r ddau ddarlun yn dra gwahanol —un yn oleu a'r llall yn dywyll; un ar y mynydd, a'r llall ar y gwastadedd; un yn nefol, a'r llall yn ddaearol. Ac eto y mae yna berthynas agos rhyngddynt â'u gilydd. Y maent yn dangos y cysylltiad sydd rhwng *gweledigaeth* a *gwaith*.

Yn nechreu y bennod hon, ceir yr Iesu yn arwain tri o'i ddisgyblion i'r mynydd i fod yn llygaid-dystion o'i ogoniant, ac i wrando cyfrinachau y byd ysbrydol. "Mynydd uchel." Yr oedd i'r mynydd le pwysig yn ngweinidogaeth yr Iesu. Gellir dweyd hynny am yr holl ddatguddiad Dwyfol. Yr oedd y mynydd, yn mhob oes, yn gyfrwng cymundeb rhwng nef a daear, Duw a dyn. Ar goppa'r mynydd

y cafodd Abraham weledigaeth fawr ei oes—Jehofah-jireh. Ar lechweddau Horeb y canfu Moses y berth yn llosgi. Ar fynydd Sinai y rhoddwyd y Ddeddf. Ar un o fynyddoedd Canaan y traddododd yr Iesu y Bregeth fawr sydd yn cynwys egwyddorion ei deyrnas—y Bregeth ar y Mynydd.

A dyna oedd yn cydweddu â'r amgylchiad hwn—y Gweddnewidiad. Cymerodd hynny le, nid ar y gwastadedd, nid yn merw y ddinas, ond yn nghanol distawrwydd, unigedd, a dwyster y mynydd. Yr oedd y lle yn gyfaddas i'r weledigaeth nefol,—mynydd uchel. Gellir tybied i'r olygfa ddigwydd yn y *nos:* wedi i'r haul fachlud, pan oedd llenni yr hwyr wedi disgyn ar fynydd a môr. Y mae'r meddwl ar adeg felly yn dod yn fwy addas i dderbyn argraffiadau. Daw y byd ysbrydol yn agos atom, ac y mae ochr faterol bywyd yn cilio o'n gŵydd.

Ac yn yr oriau dwysion hyn, tynwyd y wahanlen oddiar ogoniant yr Iesu. Daeth Shekinah ei Ddwyfoldeb i belydru yn ei wynebpryd a thrwy ei wisgoedd, nes myned o honynt cyn wynned a'r goleuni. Y fath wrthgyferbyniad! O'u hamgylch yr oedd y nos a'r tywyllwch; ond yn eu hymyl yr oedd



MYNYDD Y GWEDDNEWIDIAD.

goleuni mwy cannaid na haul y bore. Beth ydoedd? Onid llewyrch o'r gogoniant oedd yn eiddo'r Iesu cyn bod y byd? Nid adlewyrchiad mohono: nid goleuni oddiallan yn tywynu ar wynebpryd y Gwaredwr. Felly y bu ar fynydd Sinai. Aeth Moses mor agos at y Dwyfol fel yr oedd ei adlewyrchiad yn tanbeidio yn ei wedd. Ond disglaerdeb diflannol oedd hwnnw. Gwelsom yr haul yn taflu ei adlewyrchiad ar wyneb y dŵr. Gellid tybied fod y dyfroedd wedi troi yn fôr tawdd, neu yn ddarn o risial byw. Ond dyna'r haul yn cilio, a'r gogoniant yn ymado. Paham? Adlewyrchiad ydoedd—dim mwy.

Ond nid gogoniant benthyciol felly oedd ar fynydd y Gweddnewidiad. Yr oedd y gogoniant hwn yn perthyn i'r Iesu, ac i aros ynddo byth—"y gogoniant ar ol hynny."

Nid rhyfedd fod y nefoedd mor agos ar ben y mynydd. Nid rhyfedd i Moses ac Elias dd'od yno fel cynrychiolwyr dwy oruchwyliaeth fawr y gorphenol. Yr oedd Moses, tra ar y ddaear, wedi deisyf am gael sangu daear Canaan. Ond ni chafodd ei ddymuniad. Gwelodd hi o'r pellder, ac yna hunodd ar ben y mynydd. Ond daeth ei fwriad i ben mewn ffordd arall. Cafodd ei anfon, yn

mhen canrifoedd, i wlad yr Addewid, i dalu gwarogaeth i'r Iesu.

"Yn ymddiddan ag ef." Beth oedd pwnc y drafodaeth? Dywed Luc mai yr ymadawiad—yr *Exodus*—oedd i fod yn Jerusalem. Nid oedd y disgyblion yn medru amgyffred yr Iesu pan yn son am ei groes a'i ddioddefaint. Ond yr oedd yr ymwelwyr hyn yn abl i ymddiddan ar y pwnc.

Ond yr oedd i'r amgylchiad ystyr bwysig yn nglyn â'r disgyblion. Dygwyd hwy yn nes at yr Iesu. Daethant i wybod mwy am gyfrinach ei fywyd. Clywsant y llef Ddwyfol yn cadarnhau ei fabolaeth. Daethant i feddu dirnadaeth ddyfnach am ei Berson a'i waith —pan oeddynt gydag Ef ar y "mynydd sanctaidd."

Syllwn ar yr olygfa nesaf. Gwelir y Gwaredwr a'i gymdeithion yn disgyn o'r mynydd i'r gwastadedd. Y fath drawsgyfnewidiad! Nid ydym yn rhyfeddu i'r Iesu fyned i fyny. Yr oedd hynny yn naturiol iddo Ef. Hawdd fuasai iddo ddychwelyd gyda'r cenhadon nefol: myn'd i fyny i ogoniant, a goleuni y Gweddnewidiad ar ei wedd! Ond rhyfedd iddo dd'od i lawr, o'r

mynydd i'r gwastadedd—d'od yn ol i fyd y gwawd, y gwaradwydd, a'r Groes.

Yr oedd y disgyblion wrth eu bodd ar y mynydd. "Da yw i ni fod yma." Carasent babellu ar y mynydd, ac aros yno yn wastad. Ond dengys yr Iesu fod y mynydd wedi ei fwriadu i'w parotoi ar gyfer y gwastadedd: fod y weledigaeth i derfynu mewn gwaith. Y mae eisiau y mynydd o hyd. Priodol ydyw y dymuniad,-

> "Gad ini dd'od i'r mynydd fŷ,
> I'r cwmwl goleu atat ti."

Ond nid ar y mynydd yr ydym i aros. Y mae dyledswyddau yn galw ar y gwastadedd. Raid ini ddim gadael yr uchelderau ar ein hôl. Y mae'r dyn sy'n dringo'r Wyddfa unwaith mewn oes, yn debyg o dd'od a rhyw gymaint ohoni gydag ef i wastadedd bywyd. Daw yr olygfa yn rhan o'i adgofion, ac o'i fyfyrdodau. Felly am fynydd Duw. Yr ydym i gludo ei ysbrydiaeth gyda ni i wahanol adranau bywyd.

Sylwer ar yr olygfa wrth droed y Mynydd. Yno yr oedd tyrfa yn disgwyl yr Iesu. Yno yr oedd tad mewn pryder yn achos ei fachgen anffodus. Ac yno yr oedd y disgyblion yn

ceisio dattod gweithredoedd diafol, ac yn methu.

Yr oedd y dyrfa hon yn ddarlun o'r byd. Cynrychiolid cymdeithas, ar raddfa fechan, wrth droed y mynydd. Ac yr oedd y bachgen gwallgof yn engraifft o'r alanas y mae diafol yn ei wneyd ar gyflwr ac amgylchiadau dyn. Dyma broblem y byd heddyw. Dyma'r anhawsder sy'n cyfarfod pob diwygiwr cymdeithasol. Dyma ddyrysbwnc yr eglwys Gristionogol. Sut i fwrw allan yr ysbrydion aflan—y pechodau gwaeddfawr sydd yn rhwygo cymdeithas, ac yn ysgar y cysylltiadau tyneraf rhwng dynion â'u gilydd. Y mae meddwdod, anfoesoldeb, a thrueni, yn teyrnasu yn benuchel yn ein gwlad ar ddechreu yr ugeinfed ganrif. Ceir mwy yn myn'd i'r dafarn nac i'r addoldy, ac y mae gwasanaeth Mammon yn fwy poblogaidd na'r eiddo Duw.

"Os gelli di ddim," ebai tad y bachgen. "Nage," meddai'r Iesu. "Nid dyna'r anhawsder. Y mae fy ngallu I yn ddigyfnewid: os gelli *di* gredu." "Os gelli di ddim," ebai'r blodyn wrth yr haul: "helpa fi i dyfu." "Nage," meddai'r haul, "nid dyna y cwestiwn. Y mae fy ngallu i yn ddigon

ar gyfer holl flodau'r byd. Os gelli di dderbyn fy mhelydrau, a chysylltu dy hun â fy nerth."

"Dygwch ef ataf fi." "Y mae'r achos yn un anobeithiol. Y mae'r disgyblion wedi methu." Dim gwahaniaeth. "Dygwch ef yma ataf fi." "A'r bachgen a iachawyd o'r awr honno."

IESU YN BETHANIA.

"*A phan oedd efe yn Bethania.*"—
MARC XIV. 3.

EGYR y bennod hon yn Jerusalem—gyda'r archoffeiriaid. Gwelir hwy yn cynllunio brâd. Yr ydys yn clywed sŵn yr ystorm oedd eisoes wedi ymgrynhoi yn ngwersyll y gelyn. Ond, dyna'r olygfa yn newid, — o Jerusalem i Bethania. A mawr oedd y gwahaniaeth. Buoch mewn ystafell pan fyddai ystorm auafol yn ysgubo drwy y frô. Oddiallan—y nos, y corwynt, a'r gwlaw. Ond oddifewn—tawelwch a nodded. Tebyg ydyw yn yr hanes hwn—ystorm oddiallan: hedd oddifewn. Iesu yn Bethania! Mae'r darlun yn dyner a hawddgar. Yn yr oriau tywyll hyn, yr oedd yno galonau oedd yn curo gyda'r Iesu; yn ei roesawu pan oedd eraill yn cynllunio brâd.

Sylwer ar y cwmni oedd wedi d'od yn nghyd. Yr oeddynt wedi cyfarfod mewn tŷ — tŷ Simon. Efe oedd y gwahoddwr.

JERUSALEM A'R DEML.

Ychydig a wyddis am dano. Gellir tybied ei fod yn mysg y rhai a iachesid gan yr Iesu. Nid rhyfedd ei fod yn awyddus i ddangos ei ewyllys da. Nid oes gair o'i eiddo ef wedi ei gofnodi. Nid ydoedd yn siaradwr mawr fel Simon y Pharisead. Erys yn yr hanes ar gyfrif ei gymwynas, ei garedigrwydd i Waredwr y byd. Efe oedd y gwahoddwr.

Yn mysg y gwahoddedigion yr oedd yr Iesu ei hun a'i ddisgyblion. Dywed Ioan fod Lazarus yno, wedi adgyfodi o'i fedd. Yr oedd Simon ac yntau yn dystion byw o allu y Gwaredwr. Yno, hefyd, yr oedd Martha. Barna rhai fod Simon yn berthynas i'r ddwy chwaer a'u brawd, ac mai dyna y rheswm fod Martha yn cymeryd rhan mor flaenllaw yn y drafodaeth. "A Martha oedd yn gwasanaethu." Ond y tebyg yw nas gallai Martha fod yn llonydd yn unman! Yr oedd yn rhaid iddi gael *gwneyd* rhywbeth. Dyna oedd ei syniad uwchaf am ddedwyddwch—gwasanaethu ar eraill.

Ond y prif gymeriad yn yr hanes, ar wahan i'r Iesu, ydoedd Mair. Nid ydyw Marc yn dweyd ei henw: ond y mae'n amlwg mai hi ydoedd. Ac y mae yr hyn a wnaeth yn cael ei adrodd fel peth hollol annisgwyliadwy.

Nid ydoedd ar y rhaglen. "Daeth gwraig a chanddi flwch o enaint o nard gwlyb, gwerthfawr; a hi a dorodd y blwch, ac a'i tywalltodd ar ei ben ef."

Dyna'r weithred. Beth oedd ei chanlyniadau? Pa argraff a wnaeth ar y cwmni oedd wedi d'od yn nghyd? Dengys yr hanes mor bwysig ydyw i ni edrych ar bob gweithred yn y goleuni priodol. Gall yr un weithred ymddangos yn wahanol yn ôl fel y byddo safle yr edrychydd. Dyna sydd yma—yr un weithred yn cael edrych arni o wahanol gyfeiriadau,—safle y disgyblion, a safle yr Iesu.

(1) Safle y Disgyblion. Y peth cyntaf a nodir ydyw eu hanfoddlonrwydd. Dywed Ioan mai y cyntaf i roddi mynegiad i'r teimlad hwn oedd Judas. Gydag ef y cychwynodd yr ysbryd beirniadol. Efe oedd y trysorydd: ganddo ef yr oedd y gôd. A dylid cofio nad oedd gwir gymeriad Judas hyd yma wedi d'od i'r golwg. Coleddai y disgyblion syniadau uchel am ei fedr a'i graffder. Ac y mae ei feirniadaeth ar y weithred hon yn ennill eu ffafr. Y maent yn cydweled â'i eiriau ef. Am ddau reswm.

(a) Fod y peth yn wastraff. I ba beth y bu y golled hon? Colled i bwy? Cwestiwn

BETHANIA. *Photo—Bonfils.*

Judas oedd hwn. Pe buasai y disgyblion yn ei adnabod yn drwyadl, buasent yn deall ei amcan. Ond y mae Judas yn llwyddo i aflonyddu eu meddyliau. Ail-adroddant ei ymadroddion. I ba beth? Onid ydoedd yn wastraff noeth? Ac yna y maent yn egluro *(b)* y defnydd fuasent hwy yn ei wneyd o hono,—"ei roddi i'r tlodion"—. Gwerth tri chan' ceiniog—i'r tlodion. Y mae delw Judas ar y frawddeg. Fel yna y syniai efe am flwch enaint. Y peth cyntaf oedd yn ei daro ydoedd ei werth masnachol—tri chan' ceiniog. Cyflog llafurwr oedd ceiniog y dydd, ac yr oedd y swm a nodir yn gyfystyr o'r bron a chyflog blwyddyn. A dyna'r cyfan wedi ei wastraffu mewn ychydig o fynudau! Hwyrach fod Judas yn iawn, mewn un ystyr. Ond mewn ystyr uwch, yr oedd yn *wrong*. Nis gellid mynegi gwerth y blwch enaint hwn. Nid nwydd marchnadol ydoedd. Y mae yna bethau nas gellir rhoddi pris arnynt. Y maent yn perthyn i fyd uwch.

Ond y mae ergyd y feirniadaeth yn y gair olaf o honi—"a'i roddi i'r tlodion." Y mae Judas yn sefyll i fyny fel amddiffynydd y tlawd, fel y bydd ambell ymgeisydd etholiadol yn galw ei hun yn "gyfaill y gweithiwr." Defnyddir y ddadl hyd heddyw. Y

mae yn rhan o feirniadaeth boblogaidd y dydd. I ba beth y bu y golled hon? Gallesid gwneyd defnydd amgenach o'r blwch enaint,—ei werthu a'i roddi i'r tlodion. Ond y cyntaf i ddefnyddio yr ymresymiad hwn oedd Judas: ac fe ddylid gwybod yr holl wir am dano. "Hyn a ddywedodd efe," &c. Yr oedd Judas yn defnyddio ymresymiad nad oedd ganddo un hawl iddo. Nid cyfaill y tlodion oedd ef. Ond cafodd ei ymadroddion ddylanwad amlwg. Yr oedd ei gyd-ddisgyblion o'i blaid. Ystyrient fod yr achos wedi ei brofi, a bod y weithred yn brawf o wastraff digymysg.

2. Safle yr Iesu. "A'r Iesu a ddywedodd, Gadewch iddi." Hyd yma, nid oedd Efe wedi cymeryd rhan yn yr ymddiddan. Gwrandawai ar Judas yn trafod y pwnc mewn gwaed oer. Ond daeth yr adeg iddo Ef gyfryngu. Beth a ddywed Efe? Beth ydyw llinell yr amddiffyniad?

(1) Fod yr ymyriad yn hollol ddialw-amdano. "Gadewch iddi." Pwy wyt ti, yr hwn wyt yn barnu arall? Yr oedd yna elfennau yn y weithred nad oeddynt hwy yn eu dirnad. Nis gallai Judas farnu haelfryd-

edd. Haws fuasai i'r dall farnu lliwiau, neu i'r byddar fod yn feirniad cerddorol.

(2) Cymeriad y weithred ei hun—"gweithred dda." Gwastraff a welai Judas ynddi; ond daioni a welai yr Iesu — "gweithred dda." Y mae cymysgedd yn perthyn i'r rhan fwyaf o weithredoedd dynion—peth yn dda, a pheth yn israddol. Fel yr aur yn y gloddfa: ceir llawer o sothach yn nglyn âg ef. Ond yr oedd y weithred hon yn dda drwyddi—fel aur wedi ei buro drwy dân. Yr oedd felly yn ei hegwyddor. Cariad oedd wedi ei chymhell. Dyna gymeriad y weithred hon. Dyfais cariad ydoedd. Yr Iesu oedd ei gwrthrych.

"Yr ydych yn son am y tlodion," ebai yr Athraw. "Nid ydynt hwy i gael eu hanghofio. Y mae iddynt le amlwg yn fy nheyrnas. Yr wyf yn eu gadael o dan eich gofal. Chwi a gewch y tlodion gyda chwi bob amser. Ond myfi———!" Yr oedd Mair wedi deall y pwnc. Nid dibrisdod o'r tlodion a barai iddi wneyd hyn, ond yn hytrach ei hawydd i anrhydeddu Mab y dyn.

Yr oedd hi wedi gweled yn ddyfnach na neb arall. Yr oedd rhyw reddf yn ei chalon

yn sibrwd wrthi mai dyma y cyfleu olaf, hwyrach, i ddangos ei chariad addoliadol at yr Iesu. Dyna oedd ystyr y weithred: yr oedd ynddi elfennau addoliad. Fel y dywedir am y Doethion—"Hwy a'i haddolasant ef." Felly y gwnaeth Mair. Gwelodd Ddwyfoldeb yr Iesu. Dichon mai ei ddynoliaeth oedd yn fwyaf amlwg i'r lleill. "A'i gael mewn dull fel dyn"—wrth fwrdd y wlêdd. Ond gwelodd Mair yn mhellach na hynny. Canfu hi y "Duwdod yn y dyn," a thorrodd y blwch mewn ysbryd addolgar ger ei fron.

(3) Yr oedd y weithred yn fynegiad o'r goreu oedd ganddi. "Hyn a allodd hon." Dyna dystiolaeth yr Iesu. Pa faint a wnaeth hi? Yr oll a fedrai, meddai'r Iesu. Am ba faint o weithredoedd y gellir dweyd hyn? Diau y carasai wneyd mwy. Pe y buasai ganddi flwch arall o enaint, digon tebyg y buasai yn ei offrymu yn ewyllysgar. Ond aeth i derfyn eithaf ei gallu.

(4) Yr oedd yn weithred amserol. Y mae'r Iesu yn ei hamddiffyn ar y cyfrif hwn—"Hi a achubodd y blaen." Ni fuasai y Gwaredwr wedi ei eneinio oni bae i Mair fanteisio ar y cyfleu hwn. Mae'n wir i Nicodemus brynu

HEOL YN JERUSALEM.

pêr-aroglau, ac i'r gwragedd fyned a hwy at y bedd fore'r trydydd dydd. Ond nid oedd angen am danynt. Yr oeddynt yn rhy ddiweddar. Yr oedd yr Iesu wedi adgyfodi.

Cafodd yr Iesu ei eneinio mewn ffordd arall: nid wedi ei farw, ond cyn hynny,—yn Bethania. A Mair oedd y gweithredydd. "Hi a achubodd y blaen." Pan oedd Jerusalem yn parotoi y groes a'r goron ddrain, yr oedd Mair yn parotoi y blwch enaint gwerthfawr! Gweithred amserol: oherwydd os oedd eneinio i fod o gwbl, yr oedd yn well gwneyd hynny tra yr oedd yr Iesu gyda hwy. Hwyrach y byddai yn burion cofio hyn yn nglyn â'i deyrnas, ac â'i bobl. Y mae llawer o eneinio yn bod wedi i ddynion feirw, a chael eu claddu o'r golwg. Dyna'r pryd y torrir y blwch enaint ar eu coffadwriaeth. Coffheir am danynt mewn bywgraffiadau: codir colofnau ar eu beddau, a chanmolir eu gwasanaeth a'u ffyddlondeb. Y mae hynny yn burion: ond ai nid gwell fyddai dechreu ychydig yn gynt? Os ydyw y blwch enaint i gael ei dori, gwneler hynny tra fyddo y gwrthrych yn fyw. Gadewch i ambell weithiwr da wybod ein bod yn mawrhau ei lafur a'i ymdrech, ac yn ddiolchgar am dano. Y mae Emrys, y bardd, yn condemnio yr anni-

bendod hwn yn ei farwnad deimladwy i'r diweddar Barch. Michael Roberts, Pwllheli :—

"Awen Cymru ! cywilyddia,
Pa le buost yn ymdroi ?
Er pan hunodd Michael Roberts,
Mae blynyddau wedi ffoi :
Cenaist alarebau llyfnion
I rai dinod yn eu dydd,
Gwelaist gladdu seraph Cymru
Heb un deigryn ar dy rudd !"

Ond yr oedd Mair wedi deall yr adeg. Achubodd y blaen i eneinio'r Iesu. Pe y buasai wedi gohirio y weithred hyd ryw adeg arall, y mae'n amlwg na chawsai ei chyflawni o gwbl. "Ai hwn fydd fy ngwaith olaf, tybed?" ebai y diweddar Dr. Joseph Parry. Yr oedd wedi ymaflyd mewn gwaith newydd—*oratorio*. Ei thestyn ydoedd "Iesu o Nazareth." Aethai rhagddo o Bethlehem i Nazareth, Capernaum, a Bethania, gan feddwl dilyn camrau'r Gwaredwr hyd adeg ei esgyniad i'r nef. Ond cyn iddo ei orphen disgynodd y llen ar ei fywyd ef ei hun. Da genym gofio ei fod yntau, pen cerdd Cymru, wedi cyrhaedd hyd Bethania, ac mai gorchest olaf ei oes lafurus ydoedd tori blwch enaint ei athrylith i eneinio'r Iesu. (5) Wrth amddiffyn y weithred hon, y mae'r Iesu wedi ei

gwisgo âg anfarwoldeb, "Yr hyn a wnaeth hon, hefyd, a adroddir, er coffa am dani." Yn mha le? "Lle bynnag y pregethir yr Efengyl hon—yn yr holl fyd." Mae perarogl yr enaint hwn yn aros byth. Mae'r Efengyl yn ei gludo ar ei gwisgoedd i bob gwlad.

Mae dynion yn bur chwanog i gyhoeddi anfarwoldeb uwchben eu gweithredoedd. Ond ychydig sydd yn ei etifeddu. Hanes y rhan fwyaf o bethau ydyw, eu bod yn suddo yn ddistaw i dir anghof. Ond y mae un peth anfarwol, a *daioni* ydyw hwnnw. Nis gall amser gloddio ei fedd.

Y mae tystiolaeth yr Iesu wedi ei chadarnhau. Aeth dwy fil o flynyddau heibio o'r bron er pan oedd yr Iesu yn Bethania; ond y mae gweithred dda Mair yn fwy amlwg heddyw nac erioed. Ychydig oedd yn dystion ohoni ar y pryd: ond pwy a rif y sawl sy'n darllen ei hanes yn mhob rhan o'r byd? Ac y mae ysbrydoliaeth y weithred yn aros. Dyma'r anrhydedd uwchaf a berthyn i unrhyw waith o eiddo dyn,—ei fod yn foddion i ysbrydoli meddyliau eraill. Dyna hanes y weithred hon. Y mae wedi sisial wrth lawer calon—"Dos dithau a gwna yr un modd."

Mair oedd y gyntaf i dori'r blwch. Gyda hi y dechreuodd y peth. Ond a oes rhywun

fedr ddweyd sawl blwch enaint a dorrwyd ar ol hynny? Y mae'r weithred dda hon yn cael ei hail-adrodd o hyd. Ac fe wneir hynny tra byddo enaint yn bod. Y mae yr hyn a wneir er mwyn Iesu yn d'od yn rhan o'i deyrnas Ef, ac ni chollir dim ohono.

Yr oedd yna draddodiad yn yr eglwys foreuol am Veronica—un o'r gwragedd oedd yn dilyn yr Iesu i Golgotha. Yr oedd y Gwaredwr yn dwyn ei groes

ar hyd yr heol a elwir *Via Dolorosa*—heol y dioddefaint, a'r gwaed yn disgyn ar ei ruddiau oddiwrth archollion y goron ddrain. Ac y mae Veronica yn estyn ei napcyn gwyn i'r Iesu i sychu y defnynnau gwaed. Y mae yntau yn ei chymeryd, yn ei defnyddio, ac yn ei hestyn yn ol i'w pherchen. Yn mhen amser wed'yn, ar ol iddi agor y napcyn, canfu ynddo argraff—*impression*—o wyneb yr Iesu.

Traddodiad henafol; ïe, ond y mae rhywbeth ynddo er hynny. Dichon nad ydyw yn wir llythyrennol; ond y mae yn wir am weithredoedd da a wneir er mwyn ei Enw ef. Mae'r napcyn gwyn yn dwyn delw'r Iesu. Y mae Efe yn gosod ei argraff ar y weithred—ac yn ei gwneyd yn anfarwol. Yn ei deyrnas Ef, y mae'r Da a'r Mawr yn

eiriau cyfystyr. "Y Da yw'r gwirioneddol *fawr*." A dyna sydd i aros, ac i fod yn y golwg am byth.

Rhyfedd y gwahaniaeth sydd yn cymeryd lle rhwng Mair a Judas yn yr hanes hwn. *Esgyn* y mae Mair,—esgyn i gymeradwyaeth yr Iesu, ac i sylw y byd. Ond *disgyn* y mae Judas, i ddinodedd a gwarth. Ond y mae'r wraig garedig a droes yr enaint yn weithred o addoliad ac o aberth i'r Iesu yn aros yn ei oleuni Ef, a'i choffawdwriaeth, fel yr eiddo Yntau, yn fendigedig yn oes-oesoedd.

Y DDWY ARDD.

"*Lle yr oedd gardd.*"—IOAN XVIII. 1.

"*Ac yn y fangre yr oedd gardd.*"—IOAN XIX. 41.

"YR Arglwydd Dduw a blanodd ardd." Dyna un o olygfeydd cyntaf y Beibl. Ac yno y gosodwyd dyn, i'w llafurio ac i'w chadw. Cylchynid ef â dedwyddyd ac â harddwch. Ond yr oedd yn yr ardd honno bren gwahardd-edig; ac yr oedd Duw wedi ei nodi allan fel arwyddlun ufudd-dod i'w Ewyllys Ef. Yr oedd y gorchymyn am dano yn syml a chlir. Ond daeth sarph i'r Baradwys honno, ac a sibrydodd amheuon i feddwl y preswylydd. Yn raddol, aeth yr amheuon yn wadiad noeth, agored, o eiriau Duw, "Ni byddwch feirw ddim." Credodd dyn y sarph, ac anghofiodd ei Dduw. Collodd ei ddiniweidrwydd a'i ddedwyddyd. Gyrwyd ef o'r ardd i'r anialwch. Cauodd pyrth Eden ar ei ol, a gosodwyd cerubiaid i gadw ffordd Pren y Bywyd.

GETHSEMANE—HEDDYW.

Photo—Bonfils.

Dyna ddarlun y Beibl o gwymp dyn. Cymerodd le mewn gardd. Ac y mae yr un peth i'w weled yn hanes ei adferiad. Y mae i'r Ardd le pwysig yn hanes iachawdwriaeth y byd. Sonia y Testament Newydd am ddwy ardd,—dwy lanerch gysegredig yn mywyd y dyn Crist Iesu. Gardd Gethsemane ydyw un, gardd y bedd newydd ydyw y llall. Edrychwn ar y ddwy yn eu perthynas a'u gilydd. "Onid oedd raid i Grist ddioddef?" ebai y naill. "A chyfodi y trydydd dydd," ebai y llall.

GETHSEMANE.

"Lle yr oedd gardd." Yr oedd ei safle dan lethrau yr Olewydd, mewn llanerch dawel, dan gysgod y coed. Dywedir ei bod yn llecyn dewisol gan yr Iesu. Yno y byddai yn encilio o dwrf y ddinas, ac o swn y torfeydd. "Mynych y cyrchasai yr Iesu a'i ddisgyblion yno." Yr oedd eisioes yn ddaear sanctaidd. Ac yno y daeth yr Iesu i barotoi ar gyfer yr Awr y sonia am dani,—Awr fwyaf amser,—Awr prynedigaeth y byd. "Gwedi i'r Iesu ddweyd y geiriau hyn,"—ymddiddanion yr oruwchystafell. Y peth olaf a wnaethpwyd ydoedd canu hymn—emyn y Pasg. Yna y mae'r olygfa yn newid,

o oleuni yr oruwchystafell i gysgodion yr Ardd,—"i'r hon yr aeth efe a'i ddisgyblion."

Ac y mae'r "disgyblion" eto'n cael eu gwahodd i'r llanerch hon. Awn yno yn wylaidd. Os dywedwyd wrth Moses am ddiosg ei sandalau yn ymyl y Berth, oni ddylid gwneyd hynny ar gyffiniau yr olygfa hon,—

"Wrth gofio'i riddfannau'n yr ardd."

Y mae'r hanes sydd wedi ei gofnodi gan y pedwar Efengylwr yn awgrymu yr ystyriaethau canlynol,—

1. Unigedd y Gwaredwr. Iesu unig, dyna welir, yn ngoleuni'r lloer, yn Gethsemane Ardd. "Gwr gofidus." Er fod y disgyblion yn agos, nis gallent hwy sangu yr un fan a'r Iesu. "Efe a dynodd oddiwrthynt megis ergyd carreg." D'oedd y pellder ddim yn fawr—dim ond "ergyd carreg"; ond yr oedd yn rhy fawr i'w ddisgyblion fedru ei ddilyn Ef. Peth fel yna ydyw *unigedd.* Y mae rhyw "ergyd carreg" rhyngddo a phawb arall. Ac yr oedd y Gwaredwr yn teimlo yr unigrwydd i'r byw. Gofyna i'w ddisgyblion wylio gydag Ef. Yr oedd yn rhywbeth ganddo feddwl eu bod hwy yn yr Ardd. Ond rhyfedd mor ddiymadferth oeddynt. Syrth-

iasant i drwmgwsg pan y dylasent fod yn gwbl effro. "Y mae yr awr yn dyfod pan y gadewch fi yn *unig*." Yr oedd honno wedi d'od yn Gethsemane. Sathrodd y gwinwryf ei hunan, ac o'r bobl nid oedd neb gydag Ef.

2. Dyma fangre yr *ymdrech* ryfeddaf yn hanes y byd—ymdrech Ddwyfol. "Ac efe mewn ymdrech meddwl." Ceir hanes Jacob yn ymdrechu â'r angel, yn y nos; ond nid oedd honno namym cysgod gwan o ymdrech yr Iesu yn yr Ardd. Nid ymdrech gorphorol ydoedd. Yr oedd ei hanfod yn yr anweledig, —ymdrech *meddwl*, a hwnnw yn feddwl Crist; y meddwl pur a pherffaith, y Cyfiawn hwnnw.

Ffurf yr ymdrech oedd gweddi. "Efe a weddïodd yn ddyfalach." "Yr hwn, yn nyddiau ei gnawd, wedi iddo, trwy lefain cryf a dagrau, offrwm gweddiau ac erfyniau,"—

"A'i chwys fel defnynnau o waed."

3. Ymostyngiad yr Iesu i'r Ewyllys Ddwyfol. "Mi a ddaethum i wneuthur dy ewyllys, O fy Nuw." Dyna oedd ei nôd yn wastad. Ond yn Gethsemane, fe deimlodd Efe fod cyflawni'r ewyllys yn anhawdd—"Os yw

bosibl,—aed y cwpan hwn heibio!" Y mae ei ewyllys ddynol fel yn gwelwi yn ei gŵydd. Y mae ofnadwyaeth ei chynwys bron a'i lethu. "Cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef." Ond y mae gwawr y fuddugoliaeth wedi tori yn y gair nesaf. Er hynny,—"Dy ewyllys di a wneler!" "Y cwpan a roddes y Tad, onid yfaf ef?" Er iddi fod cyn chwerwed ag angeu ei hun: er fod croes a bedd yn ei dilyn. Cuddiwyd edifeirwch o'i olwg. Ni throes yn ol er neb. Tywalltodd ei enaid i farwolaeth: ac ewyllys yr Arglwydd a lwydda yn ei law Ef.

GARDD Y BEDD NEWYDD.

Newidiodd yr olygfa. Arweinir ni i ymyl y Groes. Ac yn y fangre honno yr oedd Gardd. Yr oedd ei safle yn un hynod. Yn y llanerch, ychydig o'r neilldu, yr oedd Golgotha,—croes a gardd; y brawychus a'r tawel, yn ffinio ar eu gilydd. Ac heblaw ei safle eithriadol, yr oedd *bedd* yn yr Ardd. Dim ond un, a hwnnw yn fedd newydd, wedi ei naddu o'r graig.

Dyna'r fan y gorweddodd yr Arglwydd—y bedd yn yr Ardd. Ond ni oddefodd Duw i'w Sanct weled llygredigaeth.

"Nis gallai angeu du
Ddal Iesu'n gaeth."

Daeth Gardd y bedd newydd yn Ardd yr adgyfodiad. Nôs oedd yn Gethsemane,—y nôs y bradychwyd Ef. Ond yn yr Ardd hon, fe gododd y wawr, gwawr wen oleu y trydydd dydd.

Ac y mae'r goleuni yn fantais i weled y ddwy Ardd yn eu perthynas a'u gilydd. Y mae Gethsemane yn derbyn ystyr newydd wrth ei chyferbynu â Gardd yr Adgyfodiad.

(1) Iesu unig oedd yn y naill: Gwaredwr Byd yn rhodio glyn cysgod angeu. Ei enaid yn drist, a'i ddynoliaeth yn crymu dan bwys y baich. Ond yn Ngardd y bedd newydd, y mae'r hanes wedi newid. Y nôs a aeth heibio—nôs y brâd a'r chwys—nôs Calfaria. Daeth y bore gwyn, digwmwl. Yr Arglwydd a gyfododd. Iesu byw sydd yno! "Yr hwn wyf fyw." "Cymdeithas ei ddioddefiadau"—dyna ystyr Gethsemane: ond "grym ei adgyfodiad"—dyna welir yn yr Ardd hon—yr Ardd gerllaw y Groes.

(2) Edrychwn ar y *disgyblion.* Y fath gyfnewidiad a welir yn eu hanes hwy. Yr oeddynt yn Gethsemane: ond hynod mor wan, mor eiddil oedd yr oll. Disgyblion yn *cysgu*—yn methu gwylio un awr. A phan ddaeth y bradwr a'i lû, y maent yn dianc, ac

yn ffoi. Ond y mae Gardd y bedd newydd yn eu galw yn nghyd drachefn. Disgyblion *effro* sydd yno. Y mae adgyfodiad yr Iesu wedi eu gwisgo hwythau â nerth newydd, wedi rhoddi iddynt neges newydd.

(3) Gwnaed yr un peth ag angylion y nef. Yr oedd angel yn Gethsemane. Luc sydd yn rhoddi yr hanes am dano. "Ac angel o'r nef a ymddangosodd iddo, yn ei nerthu ef." Angel caredig oedd hwnnw—angel y nôs—a thyner iawn oedd ei neges. Cafodd ei anfon i gynorthwyo yr Iesu yn nyfnder ei ing a'i boen. Mawr oedd ei fraint! Daeth i'r Ardd yn y nôs, pan oedd y disgyblion yn cysgu, i'w nerthu Ef—ei Greawdydd a'i Gynhaliwr.

Dywedai Dr. Duncan y carasai wybod enw yr angel hwn — angel Gethsemane. "Ac wedi i mi fyn'd i'r nefoedd," meddai, "mi fyddaf yn sicr o edrych am dano." "Odid fawr y medrwch chwi ei adnabod," ebai cyfaill, "y mae yno gynifer ohonynt." "Na," ebai Dr. Duncan, "yr wyf yn credu y bydd yr angel hwnnw yn hawdd ei adwaen am byth. Wrth iddo ymgrymu yn Gethsemane i godi'r Gwaredwr oddiar y ddaear laith, synwn i ddim na ddisgynodd dyferyn o waed ar ei aden wen. Ac fe erys yr angel hwnnw

mwy dan 'arwydd y gwaed.'" Dyna angel y nôs.

Awn i Ardd y bedd newydd. Un o'r pethau cyntaf a'n cyferfydd yno ydyw angel,—nid angel y nôs, ond angel y wawr. Ond y mae wedi newid ei waith. Dyry Efengyl Mathew bortread ohono,—"Disgynodd angel yr Arglwydd o'r nef, ac a ddaeth ac a dreiglodd y maen." Dyna waith yr angel yn ngardd yr adgyfodiad. Nid oedd ar y Gwaredwr eisieu cynorthwy yr angel i godi o'i fedd. Adgyfododd yn ei nerth Dwyfol ei hun. Ond cafodd yr angel y fraint o barotoi ffordd yr Arglwydd —fel gwas yn agor drws i'w feistr yn y bore. "Pwy a dreigla i ni y maen?" meddai'r gwragedd ar lasiad y dydd. Ond nid oedd raid iddynt bryderu o gwbl. Yr oedd yr angel wedi gwneyd y gwaith yn deilwng ohono ei hun. Ond yr oedd ganddo genadwri iddynt hwythau, lawn o felusder a swyn. "Nac ofnwch: canys mi a wn mai ceisio yr ydych yr Iesu. . . . . Nid yw efe yma, canys cyfododd." Dyna neges yr angel yn Ngardd yr Adgyfodiad,—cyhoeddi y ffaith,—ac yna y mae efe yn cilio o'r golwg. Beth oedd ei hanes wed'yn? Hwyrach mai efe yw yr angel a welodd Ioan,—yr angel yn yr haul, ac mai efe fydd yn gosod yr udgorn aur wrth

ei fîn i hysbysu fod teyrnasoedd y ddaear wedi myned yn eiddo i'n Harglwydd ni a'i Grist Ef.

Fel yna, wrth edrych ar y naill lanerch yn ngoleuni y llall, — Gardd Gethsemane yn llewyrch yr Ardd gerllaw y Groes,—yr ydym yn gweled gwahaniaeth amlwg,—yn safle yr Iesu ac yn hanes pawb oedd yn dal perthynas ag Ef. Mae dyn ac angel wedi derbyn neges newydd.

Ond o dan y gwahaniaeth hwn yr oedd yna berthynas — perthynas ddofn ac anwahanol. Yn Gethsemane y gwregyswyd y Gwaredwr â nerth i wynebu Calfaria, i orchfygu y diafol, ac i agor pyrth y bedd. Dywedir am un o frwydrau mawr y ganrif ddiweddaf, ddarfod iddi gael ei hennill yn meddwl y câd-lywydd cyn i'r un fagnel gael ei thanio, na chleddyf gael ei dynu o'r wain. Hyn oedd wir am frwydr Calfaria. Cafodd ei hennill yn meddwl yr Iesu, yn ymdrech Gethsemane, trwy ei ing a'i chwys gwaedlyd. Ffrwyth yr ymdrech honno oedd buddugoliaeth y Groes. Dyna wnaeth y bedd yn yr Ardd yn fedd gwâg, ac yn fedd newydd byth mwy.

"Yn rawnwin ar y Groes,
Fe droes y drain,
Caed balm o archoll ddofn
Y bicell fain."

Y mae Eden ardd a'i swynion wedi cilio dros orwel amser. Gwynfa golledig ydyw, ac a fydd honno. Ond y mae'r Iesu yn arwain dyn i Baradwys newydd, ac i wlad well. "Mi a ddaethum fel y caent fywyd."

Ac y mae nerth y bywyd anherfynol hwn yn d'od o'r mannau yr ydys wedi bod yn meddwl am danynt. "Fel y gwypoch beth ydyw rhagorol fawredd ei nerth ef." Pa fodd y mae i ni wybod am dano? Awn yn ol i fore'r trydydd dydd. Awn heibio Gethsemane i Ardd y bedd newydd, ac yno fe welwn "weithrediad nerth ei gadernid ef, yr hon a weithredodd efe yn Nghrist pan gyfododd ef o feirw."

" Ac yno adgyfododd
Yn ogoneddus iawn,
Daeth bore teg a hyfryd
N'ol stormus, ddu, brydnawn :
Y gadwyn fawr a dorodd
Ar fore'r trydydd dydd,
Fe goncrodd angeu'i hunan :
O'r carchar daeth yn rhydd."

WRTH FOR TIBERIAS.

"*Gwedi y pethau hyn, yr Iesu a ymddangosoad dracheſn i'w ddisgyblion wrth fôr Tiberias: ac fel hyn yr ymddangosodd.*"—IOAN XXI. 1.

"YMDDANGOS drachefn." Yr oedd yr ymddangosiadau blaenorol wedi cymeryd lle yn nghyffiniau Jerusalem: yn ymyl y bedd gwâg, yn yr oruwchystafell, ar y ffordd i Emmâus. Ond yr oedd yr angel wedi dweyd wrth y gwragedd fod yna gyfarfyddiad arbenig i fod yn Galilea. "Yno y cewch ei weled ef." Ac y mae nifer o'r disgyblion yn gado Jerusalem, gan ymdaith i'r fangre fu yn faes gweinidogaeth yr Iesu, y lle yr oeddynt hwythau wedi eu galw i fod yn ganlynwyr iddo. Yr oedd yr amgylchiadau wedi cyfnewid yn fawr. Nid oedd yno dorfeydd yn sefyll ar y traeth: yr oedd brwdfrydedd y dyddiau gynt wedi diflanu, ond yr oedd yr adgofion yn aros. Mae gan leoedd o'r fath ddylanwad cyfrin ar y meddwl. Ewch i ardal eich mebyd, i'r addoldy lle y buoch yn "dweyd adnod" pan yn blentyn, eisteddwch



MOR TIBERIAS.

yn y sêt. 'Does yno yr un gwasanaeth ar y pryd—pobpeth yn ddistaw a mûd. Ond arhoswch! Dyna fysedd Adgof yn codi'r llenni, ac yn dwyn y pell yn agos. Yr ydych yn clywed lleisiau mwynion, yn gweled wynebau hoff sydd, bellach, wedi eu colli yn niwl y glyn. Lle tebyg oedd glan môr Tiberias, a dyna lle yr ymddangosodd yr Iesu drachefn i'w ddisgyblion—wrth fôr Tiberias.

Y CWMNI.

Yr oedd saith ohonynt. Yr enw cyntaf ar y rhestr ydyw *Simon Petr.* Yr oedd llawer amgylchiad cofiadwy wedi digwydd er pan fuasai efe ar lan Tiberias o'r blaen. Collasai ei safle fel disgybl i'r Iesu. Ond er crwydro yn mhell nid aeth yn rhy bell i lygad y Gwaredwr ei arwain yn ol. Yr oedd ei drosedd yn fawr, ond yr oedd ei edifeirwch yn fwy. Ac onid efe, o'r holl apostolion, oedd y cyntaf i weled yr Iesu ar ol ei adgyfodiad? "A'i weled gan Cephas, yna gan yr holl apostolion." "Ac a ymddangosodd i Simon." A'i enw ef yw y cyntaf ar y rhestr wrth fôr Tiberias.

Y nesaf ydyw *Thomas.* Cymeriad gwahanol iawn i'r eiddo Simon. Yr oedd y naill yn feiddgar a hyderus, y llall yn ochelgar a

phruddglwyfus. Yr oedd Petr lawer pryd yn *dweyd* mwy nac oedd yn ei feddwl; tra yr oedd Thomas yn *meddwl* mwy nac oedd yn ei ddweyd. Yr oedd un yn frwdfrydig a chyfnewidiol: y llall yn bwyllog, ac anhawdd ei argyhoeddi. Ond er yn wahanol eu nodweddion, yr oedd eisiau y ddau gyda gwaith yr Iesu. Gwelir y naill a'r llall wrth fôr Tiberias—ysbrydiaeth fywiog Simon Petr, a meddylfryd dwfn, tawel, y gŵr a ddywedodd—"Fy Arglwydd a'm Duw."

Yn ei ddilyn ef y mae *Nathanael* o Cana yn Galilea. Dwy waith y daw efe i'r golwg yn yr Efengyl hon,—yn ei dechreu ac ar ei diwedd. Cymeriad didwyll, unplyg, a phur. Nid oes dim cynhyrfiol yn ei hanes. Yr oedd fel y goleuni gwyn yn cynyddu fwy-fwy hyd hanner dydd. Ac yr oedd hwnnw bellach wedi d'od. Cafodd ei wneyd yn un o dystion yr adgyfodiad.

Yn nesaf, daw *Iago* ac *Ioan*, meibion Zebedëus—dau frawd, yn dilyn yr un alwedigaeth. Ac wrth eu gorchwyl o bysgotta y cawsant eu galw i fod yn ddisgyblion. Yn nechreu eu gyrfa gyhoeddus gelwir hwy yn "feibion y daran."

"Yn y cwmwl 'roedd e'n aros,
Yn y daran 'roedd ei le."

Ond yn raddol y maent yn cyfnewid — y gerwindeb yn troi yn dynerwch. Daethant i *daranu* llai, ac i *oleuo* mwy.

Heblaw y rhai'n, y mae yna *ddau eraill*— brodyr dienw. Tybia rhai mai Andreas a Phylip oeddynt. Nid yw hynny ond dyfaliad noeth. Y mae'r hanesydd yn ddistaw ar y pwnc. Dichon fod hynny yn awgrymiadol. Y mae gan yr Iesu lawer o ddisgyblion tebyg yn mhob oes. Pobl gyffredin a di-nôd. Nid ydynt yn meddu unrhyw hynodrwydd. Ond y mae yna le parchus iddynt yn nheyrnas yr Iesu. Cawsant eu cynrychioli wrth fôr Tiberias.

Y GWAITH.

Yr oeddynt wedi cyfarfod yn y llanerch hon i ddisgwyl yr Iesu. Ond yr oedd y naill ddydd ar ol y llall yn myned heibio, ac yntau heb dd'od. Nid peth hawdd oedd aros a disgwyl dan amgylchiadau o'r fath. Un diwrnod, y mâe Petr yn gwneyd hysbysiad ar ei gyfrifoldeb ei hun. "Yr wyf fi yn myned i bysgotta." Y mae cymeriad Petr yn cael ei ddatguddio mewn geiriau o'r fath. Nid gŵr yn meddwl am gynlluniau ydoedd, ond yn eu troi yn actau yn y fan. O'r defnydd yma y gwneir *arweinwyr* yn gyffredin.

Dyna hanes *pioneers* — rhagredegwyr pob symudiad newydd. "Yr wyf fi yn myned." A rhyfedd y dylanwad sydd gan gymeriadau o'r fath ar eraill! Y mae rhyw drydan yn eu hysbryd. Gyda bod y gair hwn wedi disgyn dros wefus Petr, y mae y lleill yn ateb, —"Yr ydym ninnau hefyd yn d'od gyda thi." Y mae brwdfrydedd Petr yn meddiannu yr oll. "A hwy a aethant allan." Ond antur aflwyddiannus ydoedd,—"A'r nos honno ni ddaliasant ddim."

Yn raddol ac araf y mae y nos yn cilio, a bore newydd yn ymagor ar y byd. A phan "ddaeth y bore"—pan oedd y wawr yn dechreu gwrido yn y dwyrain — daeth yr Iesu. Lle bynag y daw Efe, daw y bore hefyd,—

"Mae'r wawr yn cerdded ar ei ol."

YR IESU AR Y LAN.

"Am hynny y disgybl hwnnw yr oedd yr Iesu yn ei garu a ddywedodd wrth Petr,—"Yr Arglwydd yw!" Ioan oedd y blaenaf i weled, i amgyffred ystyr yr olygfa: ond Petr oedd y cyntaf i weithredu. Y mae'r cyferbyniad hwn yn treiddio trwy yr hanes. Ioan oedd y cyntaf at y bedd: Petr aeth i mewn.

Y maent yn delweddu dau ddosbarth o hyd. Rhagoriaeth y naill ydyw eu gallu i ganfod, i *weled* gwirionedd. Dyna'r meddylwyr: rhai yn meddu llygad clir, amgyffredion cyflym a threiddgar. Nodwedd y dosbarth arall ydyw eu hegni a'u gweithgarwch. Nid ydynt mor graff eu golygon, ond meddant fwy o anturiaeth. Y maent yn barod i "ymwregysu" pan y bydd gwaith yn galw. Y mae'r ddau yn werthfawr — y llygaid clir a'r dwylaw parod: y meddyliwr distaw a'r gweithiwr difefl.

O LETHRAU'R OLEWYDD.

"Ac efe a'u dug hwynt allan hyd yn Bethania. . . . . Ac efe a ddygwyd i fyny i'r nef."—LUC XXIV. 50.

DAU o'r Efengylwyr sy'n cyfeirio at esgyniad yr Iesu—Marc a Luc. Terfyna Mathew ei Efengyl ar y mynydd yn Galilea, pan roddes yr Iesu y commisiwn mawr—"Ewch i'r holl fyd." Y mae Efengyl Ioan, fel y gwelsom, yn terfynu wrth fôr Tiberias, pan gafodd Pedr ei adfer i'w le ac i'w waith fel Apostol—"Bugeilia fy nefaid. Portha fy ŵyn." Cyfeiria Efengyl Marc at yr esgyniad, mewn modd byr a chryno, —y ffaith heb ddim manylion. Y mae Luc yn rhoddi adroddiad llawnach, a hynny ddwywaith,—yn niwedd ei Efengyl, ac yn nechreu llyfr yr Actau. Cyfeiria yr epistolau yn fynych at safle yr Iesu yn y nefoedd. "Duw a'i tra dyrchafodd yntau." Perthyn i'r dyrchafiad hwn yr oedd yr esgyniad,—dolen gydiol yn nghadwen ei ogoneddiad Ef. Dechreuodd ar y ddaear, ond cafodd ei gwblhau yn y nefoedd. Dyrchafodd i'r uchelder, gan gaethgludo caethiwed, fel y derbyniai

MYNYDD YR OLEWYDD.

Photo—Bonfils,

roddion i ddynion. "Ac efe a ddygwyd i fyny i'r nef."

LLE YR ESGYNIAD.

"Ac efe a'u dug hwynt allan hyd yn Bethania." Lle tawel, neillduedig, ar lethrau yr Olewydd. Yr oedd yr Iesu wedi ymweled â llawer llanerch yn ngwlad Canaan, a daeth y mannau hynny i feddu ystyr newydd ar gyfrif ei bresennoldeb Ef.

Bethlehem oedd yr orsaf gyntaf. Yno y daeth Mab Duw yn Fab y Dyn. Yno y cafodd y Gair ei wneuthur yn gnawd, gan drigo yn ein plith ni. Yna y daw Nazareth, lle y treuliodd Efe ddeg a'r hugain o flynyddau distaw—blynyddau y parotoad ar gyfer ei waith fel Messïa. Yn Capernaum, a'r cyffiniau, y cyflawnodd Efe y rhan fwyaf o'i weithredoedd nerthol. Yn Jerusalem y dioddefodd y Groes, gan ddiystyru gwaradwydd, ac y rhoddes ei fywyd yn bridwerth dros lawer. Ond un o'r mannau mwyaf dewisol ganddo ydoedd Bethania. Yno y bu Mair yn torri y blwch enaint, ac yn eistedd wrth draed yr Iesu. A dyna fangre yr esgyniad. Nid Jerusalem, y ddinas boblog, ac aflonydd; ond yr ardal dawel a chysegredig hon. "Efe a'u dug hwynt allan"—nid i le

dieithr ac estronol, ond i fangre oedd eisioes wedi ei chylchynu âg adgofion lawer. Yr oedd y lle yn addas i'r amgylchiadau oedd i ddilyn eu dyfodiad yno.

GWAITH YR ESGYNIAD.

"Ac a'u bendithiodd hwynt." Dyma weithred olaf y Gwaredwr ar y ddaear,—bendithio ei ddisgyblion. Ac yr oedd yn gydnaws â'i holl fywyd blaenorol. Yr oedd cyfranu bendithion yn naturiol iddo Ef. Bendithiwr oedd Iesu. Yr oedd ei lwybrau yn defnynu bendith o hyd. Yn yr anialwch gwâg, yr oedd ei fendith yn peri i ychydig dorthau fod yn ddigonol i borthi y torfeydd. Yr oedd y weithred yn ddatguddiad ohono. Ar y ffordd i Emmaus, ceir dau ddisgybl yn rhodio gydag Ef, ond heb ei adwaen. "Eu llygaid hwy a attaliwyd." Pa fodd y daethant i wybod mai Efe ydoedd? "A darfu, ac efe yn eistedd gyda hwynt, efe a gymerodd fara, ac a'i *bendithiodd*, ac a'i torrodd, ac ai rhoddes iddynt." Beth wed'yn? "Eu llygaid hwynt a agorwyd." A dyna wnaeth Efe yr adeg hon. "Ac a'u bendithiodd hwynt." Dyma weithred olaf yr Iesu ar y ddaear, ac yr ydoedd yn taflu goleu hawddgar ar ei fywyd oll.

A gweithred *anorphenol* ydoedd. "Ac fe a ddarfu, tra yr oedd efe yn eu bendithio hwynt . . . . " Yr oedd yr Iesu wedi gorphen dioddef, wedi gorphen iachawdwriaeth dyn; ond nid ydoedd wedi gorphen bendithio. Gweithred anorphenol ydoedd, ac a fydd honno. Y mae yn parhau yn dragywydd. Wedi i Isaac fendithio Jacob, nid oedd ganddo yr un fendith arall ar gyfer ei frawd. Ond y mae bendith yr Iesu yn ddiderfyn ac yn ddi-drai.

"Daeth trwy
Ein Hiesu glân, a'i farwol glwy',
Fendithion fyrdd—daw eto fwy."

DULL YR ESGYNIAD.

"Ymadael ohono ef oddiwrthynt, ac efe a ddygwyd i fyny i'r nef." Yr Iesu yn ymado, yn esmwyth a distaw. Nid oes yma na rhwysg na chyffro. Y mae'r cyfan mor naturiol, mor dawel ag ymadawiad yr haul ar hirddydd haf. "Wedi iddo ddywedyd y pethau hyn," ebai llyfr yr Actau, "efe a ddyrchafwyd i fyny, a chwmwl a'i derbyniodd ef allan o'u golwg hwynt." Esgyn yn araf, a'r disgyblion yn syllu ar yr olygfa. Ni welodd yr un disgybl mo'r Iesu yn cyfodi o'i

fedd, ond yr oeddynt yn dystion o'r esgyniad ar lethrau'r Olewydd.

"A chwmwl a'i derbyniodd ef." Ceir hanes esgyniad rhyfedd yn yr Hen Destament —esgyniad Elias. Ond yr oedd y gwahaniaeth yn fawr. Yr oedd esgyniad y proffwyd yn rhwysgfawr a chyffrous,—cerbyd a meirch tanllyd, a chorwynt yn ei gipio ar ei aden. Ond esgynodd yr Iesu, nid yn y corwynt, ond y cwmwl —y cwmwl gwyn. Bu'r cwmwl yn arwyddlun o'r presenoldeb Dwyfol ar hyd yr oesau. "Duw a ddaeth allan o Teman, a'r Sanctaidd o fynydd Paran," a chymylau a thywyllwch oedd o'i amgylch Ef. Felly yr arweiniodd Efe ei bobl drwy'r anialwch— mewn cwmwl o niwl a thân.

Felly ar fynydd y Gweddnewidiad. "A chwmwl goleu a'u cysgododd hwy." Cwmwl tywyll oedd ar fynydd Sinai, llawn o fellt a tharanau. Ond cwmwl goleu oedd yn cysgodi'r Iesu, yr hwn sydd yn llawn gras, ac yn llawn gwirionedd. Dichon mai hwnnw— cwmwl goleu y Gweddnewidiad, ddaeth hyd lethrau'r Olewydd, ganol dydd, i gludo'r Gwaredwr adref!

DYLANWAD YR ESGYNIAD.

Gadawodd yr olygfa hon argraff annile-

adwy ar feddyliau y disgyblion. Y mae yma dri pheth yn cael eu dweyd am danynt :

"A hwy a'i haddolasant ef"—dyna'r peth cyntaf. Y mae'r Iesu dyrchafedig yn d'od yn wrthrych addoliad. Yr oedd hyn yn ddechreu cyfnod newydd yn hanes y disgyblion. Y mae eu cymundeb â'r Gwaredwr yn cymeryd ffurf uwch. Y mae'r cysylltiadau dynol, daearol, wedi eu hysgar, ac yntau yn d'od yn bresenoldeb ysbrydol a Dwyfol. "Ac addoled holl angylion Duw ef." Dyna hanes ei ddyfodiad i'r byd. *Angylion* oedd yr addolwyr yn Methlehem Juda: ond *dynion* oedd yn addoli ar lethrau'r Olewydd. "A *hwy* a'i haddolasant ef." Y mae llawer o ganmawl yr Iesu yn bod,—fel dyn, fel dysgawdwr, fel diwygiwr. A ydym yn ei addoli? Y mae hynny yn gweddu iddo Ef. Cafodd Ioan y Difeinydd ei demtio unwaith i addoli *angel.* Ond ni fynai yr angel dderbyn y warogaeth honno ganddo. "Gwel na wnelych hyn: canys cydwas ydwyf i ti ac i'th frodyr. Addola Dduw!" Ond mae'r Iesu yn wrthrych addoliad. Teilwng yw'r Oen i dderbyn yr anrhydedd :—

> "Ymgrymed pawb i lawr
> I enw'r addfwyn Oen."

Llawenydd,—dyna'r peth nesaf. "Hwy a ddychwelasant i Jerusalem gyda llawenydd mawr." Onid yw hyn yn rhywbeth rhyfedd ac annisgwyliadwy? Gallesid meddwl mai hiraeth a gofid fuasai yn eu meddiannu oll. Dyna'r Iesu wedi ymado, a'r disgyblion mewn dagrau, yn wylo eu colled ar ei ol. Nage! "Hwy a ddychwelasant . . . . gyda llawenydd mawr." Beth oedd yn cyfrif am hyn? Pan soniai am ymado, o'r blaen, yr oedd eu hysbryd hwythau yn ymbruddhau. "Buddiol yw *i chwi* fy myned i ymaith"—ond ni fedrent hwy gredu'r ffaith. "Tristwch a lanwodd eu calon." Nis gallent ddygymod â'r syniad o fod heb yr Iesu. Yr oedd eu gobeithion yn tywyllu, ac yn diffodd fel sêr y nos.

Ond ar yr achlysur hwn, wedi i'r Iesu ymado o'r ddaear i'r nef, gwelir y disgyblion yn dychwelyd i Jerusalem, nid mewn galar, ond gyda llawenydd mawr. P'am? Onid y rheswm ydoedd eu bod wedi d'od i ddeall *ystyr* ei ymadawiad? "Onid âf fi ni ddaw y Diddanydd attoch: eithr os mi a âf, mi a'i hanfonaf ef attoch . . . " "Eithr arhoswch chwi yn ninas Jerusalem, hyd oni wisger chwi â nerth o'r uchelder."

Nid presenoldeb lleol ydoedd Efe i fod mwyach, ond presenoldeb ysbrydol. Nid oeddynt wedi *colli'r* Iesu: yn hytrach yr oeddynt wedi ei gael mewn ystyr uwch a gwell. Y ddynoliaeth oedd wedi esgyn: yr oedd y Person Dwyfol yn aros. Nis gallai neb gymeryd yr Iesu oddiarnynt mwy. Nid oedd Croes na Bedd i fod yn ei hanes byth. Ni orfydd i'r un disgybl ddweyd, fel Mair yn yr Ardd,—"Hwy a gymerasant fy Arglwydd ymaith, ac nis gwn pa le y dodasant ef." Y mae'r Iesu esgynedig yn nes at ei ddisgyblion nac y gallasai fod, pe yn aros ar y ddaear.

"Nis gall meithder ffordd nac amser,
Oeri dim o'i gariad Ef:
Mae ei fynwes byth yn dyner,
A'i gymdeithas byth yn gref:
Nis gall dyfroedd angeu llym
Ddiffodd ei angerddol rym!"

Gwaith.—Dyna'r gair nesaf,—gwaith dros yr Iesu. Felly y mae Marc yn cloi ei Efengyl,—"A hwythau a aethant allan, ac a bregethasant y gair yn mhob man, a'r Arglwydd yn cyd-weithio, ac yn cadarnhau y gair, trwy arwyddion y rhai oedd yn canlyn." Y mae esgyniad y Gwaredwr yn deffro egnïon ei ddilynwyr, ac yn eu llanw ag awydd i

ledaenu ei enw yn y byd. Hyd yma, Efe oedd wedi bod yn gweithio. "Rhaid i mi weithio gwaith yr hwn a'm hanfonodd,"—a'r disgyblion yn edrych ar ei weithredoedd nerthol Ef. Ond yn awr, y maent yn dechreu gweithio eu hunain: gweithio drosto, gweithio iddo Ef. Ond yr oedd grym y cyfan yn d'od oddiwrtho Ef ei hun. "Yr hwn a ddisgynodd yw yr hwn a esgynodd. . . . . Ac efe a roddes rai yn apostolion, yn efengylwyr, yn genhadon," &c. "Ac wele yr wyf fi gyda chwi bob amser."

Y mae ambell gymeriad yn mysg dynion yn d'od yn fwy o ddylanwad arnom wedi i'r gwrthrych ei hun fyn'd i ffwrdd. Dyna'r pryd yr ydym yn d'od i'w adnabod yn iawn, ar ol iddo esgyn, wedi iddo fyn'd i'r byd anweledig. Y mae llawer mam a thad yn d'od yn fwy o ddylanwad ar feddyliau y plant, wedi iddynt fyned y tu draw i'r llen. Adgyfyd eu geiriau, eu cynghorion, a'u hesiampl. "Fel hyn y byddai fy mam yn arfer gwneyd," ebai y bachgen, neu y lodes,—"rhaid i minnau geisio gwneyd yr un fath." "Gweithio y byddai'r Iesu," meddai y disgyblion, oddiar lethrau'r Olewydd. "Son am ei waith y byddai o hyd. Gadewch i ninnau wneyd yr

un fath." "A hwythau a aethant allan, ac a bregethasant yn mhob man."

"GWLAD YR IESU."

"Ac efe a ddygwyd i fyny i'r nef." Nis gellid ei ogoneddu ar y ddaear. Nis gallai fod yn "Archoffeiriad ein cyffes ni," heb iddo fyned i fewn i'r "cysegr nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd." Yno y daeth Efe yn Eiriolwr gyda'r Tad,—

"Esgyn a wnaeth i entrych nef,
I eiriol dros y gwan."

Daeth i lawr o'r nef i'r ddaear i fod yn ddioddefydd: aeth i fyny yn goncwerwr. Daeth y nef allan i'w gyfarfod, ac yr oedd gosgorddion o engyl yn seinio ei glod. "O byrth, dyrchefwch eich pennau, a Brenhin y Gogoniant a ddaw i mewn!"

Crefydd yr esgyniad ydyw crefydd yr Iesu. Y mae'n arwain y meddwl i'r nefolion-leoedd: ac yn gosod serchiadau y galon i weithredu ar y pethau sydd uchod, lle y mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw. I fyny! ydyw arwyddair Cristionogaeth.

Y mae yr oes yn son am ddelfrydau—*ideals* uchel a dyrchafedig. "Ceisiwch ddelfrydau teilwng i'ch bywyd," meddir. Eithaf gwir.

Ond fe ddylai fod gan ddisgybl yr Iesu y delfryd uwchaf mewn bod. Nid drychfeddwl yn unig sydd ganddo ef, ond Person byw—Iesu dyrchafedig—Gwaredwr wedi esgyn i nefoedd Duw, ac eto yn cadw y berthynas yn ddigyfnewid. "Ddoe, heddyw, yr un, ac yn dragywydd." Esgynodd heb gyfnewid. Yr un Iesu ag a welwyd yn ymado oddiar lethrau'r Olewydd sydd yn eistedd yn nghanol yr orseddfainc—"yr Iesu hwn." Iesu'r ddaear ydyw Iesu'r nef. "Myfi yw Joseph," ebai llywydd yr Aipht, — "eich brawd." Nid oedd y dyrchafiad wedi oeri ei serch, nac wedi newid mymryn ar ei deimlad tuag atynt. "Myfi yw Iesu," ebai'r Gwaredwr, wrth Paul, ar y ffordd i Damascus. "Yr hwn wyf fyw ac a fum farw," ebai wrth Ioan yn Patmos. "Mi gei orphwys ar fy mynwes megis cynt. Canys yr wyf yn dyrchafu at fy Nhad i a'ch Tad chwithau."

"Y DYN CRIST IESU."

". . . . *Ac un cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu.*"—1 Timotheus ii. 5.

YMAE un o'n poëtau ni ein hunain yn darlunio dyn yn myned i ben y Wyddfa i *feirniadu* codiad yr haul. Llwyddodd i fyned â'r dymher feirniadol gydag ef i ben y mynydd, ond y foment yr ymddangosodd brenin y dydd, fe ffôdd yn y fan. Mae y beirniad ar ei ddeulin yn addolydd Duw mewn Natur.

Tebyg i hyn ydyw hanes dynion yn eu perthynas â Christ yr Arglwydd. Gosododd aml un ei fryd ar y gorchwyl o feirniadu ei gymeriad Ef, a'i gyferbynnu â mawrion y byd. Ond wedi dyfod i'w bresenoldeb—i wyddfod Haul y Cyfiawnder, y mae y beirniad, megis er ei waethaf, yn addolydd. Y fath ydyw urddas tawel y cymeriad fel y mae yn dofi beiddgarwch meddyliol, ac yn peri i falchder ysbryd dynu ei sandalau yn ei wydd. Ond os na allwn ei feirniadu ni a gawn ei edmygu,—

ei ddyrchafu goruwch ein llawenydd penaf. Nid oes perygl camgymeryd yn y cyfeiriad hwn, oblegid pe meddem "ddoniau dynion ac angelion," a phe rhoddid y cyfryw ar lawn waith, fe fyddai cymeriad yr Iesu yn aros "uwchlaw pob bendith a moliant"—"yn fendigedig yn oes oesoedd."

Yn awr, yn yr ysbryd ac i'r amcan uchod, y dymunem wahodd y darllenydd i ddyfod gyda ni tra yn ceisio dilyn esiampl y ddau ddisgybl gynt: "A hwy a ddaethant, ac a welsant lle yr oedd efe yn trigo, ac a arosasant gydag ef y diwrnod hwnnw." Dichon y bydd nodi y ddwy ystyriaeth a ganlyn yn gynorthwy i ni fyned ymlaen:—Mawredd y Cymeriad, a Dylanwad y Cymeriad.

Priodoledd amlwg yn nghymeriad yr Iesu ydyw ei FAWREDD. Geiriau yr angel am dano ydoedd: "Hwn a fydd mawr," ac y mae llais yr oesau yn ateb, "Y dystiolaeth hon sydd wir." Codai y mawredd hwn o'i ddyfnderoedd Ef ei hun.

Nis gall *amgylchiadau* neu *safle gymdeithasol* roddi cyfrif am dano. Yr oedd holl gylch a chwrs ei fywyd yn amddifad o'r elfenau hynny sydd yn tynu sylw a gwarogaeth cymdeithas. Nid amgylchiadau ffafriol

roddes fawredd arno Ef, ond Efe a roddes fawredd ar yr amgylchiadau mwyaf cyffredin. Cysegrodd lafur, a thaflodd oleuni disglaer ei esiampl i gylchoedd symlaf bywyd.

Nid oedd ei fawredd yn gynnyrch *yr oes* yr ydoedd yn byw ynddi. Y mae pob hanesydd gonest a astudiodd y cyfnod hwnnw yn gorfod cydnabod nas gallasai y dylanwadau meddyliol a chrefyddol oedd ar waith roddi bod i gymeriad Iesu o Nazareth. Saif Efe mewn gwrthgyferbyniad hollol i ysbryd a thueddiadau llywodraethol ei oes. Yn yr ystyr hwn, "gwreiddyn o dir sych" ydoedd, ond nid tir sych "Phariseaeth" na "Saduceaeth" roddodd fod i Wreiddyn Jesse. Nis gallasai awyrgylch Judea gynnyrchu y Blaguryn digymhar a dyfodd mewn distawrwydd yn neillduaeth Nazareth.

Dengys ei hanes hefyd iddo dyfu yn annibynol ar y *sefydliadau* hynny ag y tybir eu bod yn dullweddu cymeriadau arweinwyr yr oesau. "Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth ac yntau heb ddysgu?" Ni dderbyniodd ei addysg wrth draed yr un Gamaliel; nid oedd ei enw ar restr y Rabbiniaid Iuddewig. Treuliodd ran helaeth o'i fywyd mewn pentref gwledig, fel "mab y saer." Treuliodd y

gweddill—ei fywyd cyhoeddus—yn y wlad leiaf ei maintioli. Ni fu braidd dros ei therfynau. Nid oes hanes iddo deithio gwledydd i ymweled â chewri meddyliol, fel rhai o enwogion y byd Cenedlig. Nid oes argraff Groeg na Rhufain ar ei ddysgeidiaeth. Eto i gyd, yr oedd yn llefaru "megis un âg awdurdod ganddo." Yn ei bresenoldeb yr oedd yr ymadrodd "Rabbi" yn diferu yn naturiol dros wefusau ei wrandawyr. "Ni a wyddom mai dysgawdwr ydwyt ti." Ac y mae yn aros hyd y funyd hon yn oruchaf ymysg holl ddysgawdwyr y byd. Teimla y mwyaf ohonynt, wedi ei adnabod, nad ydynt deilwng i "ddattod carai ei esgid."

Ond nid mawredd meddyliol yn unig sydd yn cyfansoddi mawredd cymeriad yr Iesu. Y mae yn perthyn iddo hefyd fawredd *moesol* ac *ysbrydol*,—y mawredd hwnnw sydd yn argraffu ei hun ar y gydwybod, yr ewyllys, a'r serchiadau. Mewn gwirionedd, cymeriad yr Iesu sydd wedi dadguddio mawredd moesol i'r byd. Efe hefyd ydyw ei safon. Mae holl fawredd teyrnas nefoedd yn cyfranogi o'r "unrhyw ddelw." Un wedd ar y mawredd hwn ydoedd *hunan-lywodraeth*, *hunan-feddiant perffaith*. Yn nghanol yr amgylchiadau mwyaf

anhawdd, yn wyneb yr ymosodiadau mwyaf annheg, ni chollodd yr Iesu ei hunanfeddiant am un amrantiad. Yn yr adegau hynny pan oedd ei ddisgyblion yn colli pob llywodraeth arnynt eu hunain, yr oedd yr Athraw yn hollol dawel. Nid oes hanes iddo ar un adeg roddi ffordd i nwyd digofus. Ni chyflawnodd un weithred i ddial ar ei elynion. Ni lefarodd air ag oedd yn gosod angenrheidrwydd arno i'w alw yn ol. Rhodiai yn barhaus mewn tawelwch urddasol,—rhyw dangnefedd mewnol na welodd y byd ei fath.

Amlwg, hefyd, yn ei gymeriad Ef ydyw yr egwyddor o *ymaberthiad*. Treiddiai hon drwy bob rhan o fywyd yr Iesu. Nid yn unig yr oedd gweithred olaf ei oes yn arddangosiad digyffelyb o aberth, ond yr oedd ei holl yrfa yn dwyn tystiolaeth i'r un egwyddor.

Mae cysgod Hunan,—hunan-gais, hunanfwynhad,—yn tywyllu rhyw gymaint ar y cymeriadau disgleiriaf ymysg dynion. Ond, wele gymeriad nas gallodd Hunan sangu ar ei derfynau. Yr oedd ei holl gyfeiriad at eraill. Daeth Mab y dyn, nid *i'w* wasanaethu, ond *i* wasanaethu. Dibrisiodd ei hun mewn trefn i fod yn gymwynaswr dynolryw. Daeth Efe i "geisio"—nid enwogrwydd personol,

nid dyrchafiad cymdeithasol,—ond yr "hyn a gollasid." "Crist nis boddhaodd ei hun." "Eraill a waredodd." Gosododd ei ewyllys ei hunan o'r neilldu, er mwyn cyflawni ewyllys yr Hwn a'i hanfonodd, a gwneuthur ei waith Ef.

Ac ynglŷn â'r ymaberthiad hwn, gellir nodi y *rhinweddau goddefol* sydd wedi eu gogoneddu yn ei gymeriad Ef. Yn y cydser yma o brydferthion, y tywynna ei addfwynder, ei amynedd, ei dynerwch, — "hynawsedd Crist." Mae y portrëad geir o hono yn yr ystyr hwn "oll yn hawddgar." Dyma gymeriad heb ronyn o'r garw, y sarug, a'r chwerw yn ei lychwino. "Tywalltwyd gras ar ei wefusau." Yr oedd ei dynerwch mor fawr fel na fynnai dorri y "gorsen ysig," na diffodd "llin yn mygu." Yn nghanol y cymeriadau haiarnaidd, oer, diserch, sydd yn ymddangos yn awr ac eilwaith yn yr hanes Efengylaidd —cynnrychiolwyr y "Sancteiddiach ydwyf fi na thydi,"—y mae addfwynder yr Iesu yn anadlu arnom fel awel haf yn nghanol oerni gauafol.

Ond yr ydym i gadw mewn cof fod yr holl dynerwch hwn yn gorphwys ar *burdeb*. Yr oedd ei holl brydferthwch yn brydferthwch

sancteiddrwydd. Ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau. Cwestiwn fu yn dyrysu y byd am oesau ydoedd hwnnw,—"Pa fodd y bydd yr hwn a aned o wraig yn lân?" Ond, wele un wedi ei eni o wraig, un o fysg holl feibion dynion, a'i gymeriad yn lân oll, heb unrhyw staen neu anaf arno; cymeriad difai, difrycheulyd, —"sanctaidd, diddrwg, dihalog, didoledig oddiwrth bechaduriaid." "Wedi ei demtio ymhob peth—heb bechod." Anadlai awyr sancteiddrwydd ymhob man. "Efe a dynn ei anadl yn ofn yr Arglwydd." Ebai G. Adam Smith:—"Y mae yn ddarnodiad hynod o gryf o anmhechadurusrwydd –anmhechadurusrwydd ag oedd yn briodoledd i Grist yn unig. Yr ydym ni, pa mor bur bynag y gall fod ein hamcanion, wedi ein cwmpasu gydag awyrgylch o bechod. Nis gallwn lai nag anadlu yr hyn sydd, un adeg, yn ennynu ein nwydau, adeg arall yn fferu ein teimlad cynhesaf, ac yn gwneuthur ein gyddfau yn analluog i roddi tystiolaeth onest neu foliant gogoneddus. Fel *oxygen* i dân sydd yn marw, felly y mae y bydolrwydd a anadlwn i'r pechod sydd o'n mewn. Nis gallwn wrtho; yr awyrgylch ydyw i ba un y ganwyd ni. Ond oddiwrth hyn Crist yn unig oedd rydd. Yr oedd Efe yn awyr-

gylch iddo ei Hun, *yn tynnu ei anadl yn ofn yr Arglwydd.* Am dano Ef yn unig y tystiolaethir, er yn byw yn y byd, nad ydoedd wedi ei heintio â phechod y byd. Ni ddarfu i wynt creulondeb yr un dyn erioed gynneu digllonedd ansanctaidd o fewn ei fynwes; ac ni ddarfu i anghrediniaeth dynion gario i'w enaid Ef ei farwol oerni. Hyd yn nod pan yn cael ei arwain gan y diafol i awyrgylch temtasiwn, ni churodd ei galon gan yr un uchelgais gwrthryfelgar. Yr oedd Crist yn tynnu ei anadl yn ofn yr Arglwydd."

Gallai efe edrych yn llygad ei oes, a'r oesau oll, a gofyn, "Pwy a'm hargyhoedda i o bechod?" Methodd ei elynion a gwneyd hynny. Mae Pilat wedi crynhoi y dystiolaeth am dano,—"Ni chefais yn y dyn hwn ddim bai." Pe buasai y Bradwr wedi canfod eiliw o wall yn nghymeriad ei Feistr, buasai hynny yn lleddfu rhyw gymaint ar ing ei feddwl; ond nid ydoedd yn bosibl cyfeirio at ddim o'r fath. Yr oedd mellt cydwybod o'i fewn yn cyhoeddi diniweidrwydd y Croeshoeliedig. "Pechais gan fradychu gwaed gwirion!"

Ac nid cymeriad *heb ei brofi*—ei lwyr brofi—ydoedd cymeriad yr Iesu. Nid mewn unig-

edd y treuliodd ei oes, ond yn nghanol cymdeithas. Nid meudwy ydoedd Ef yn llechu yn ogofeydd yr anialwch, ond Mab y Dyn yn ngwir ystyr y gair. "A'i gael mewn dull fel dyn;" yr ydoedd i'w gael yn y wledd ac yn yr angladd, yn y synagog ac yn y farchnadfa, yn y pentref tawel ac yn y ddinas boblog. Daeth Efe yn bwyta ac yn yfed. Carai ddynion â'i holl galon. Croesawai bob gradd yn ddiwahaniaeth. Derbyniai y cynghorwr pendefigaidd heb wenieithio iddo: derbyniai y tlawd heb ei sarhau. Yr oedd rhyw gyfaredd yn ei bresenoldeb oedd yn attynu pob gradd. Yr unig ddosbarth a edrychai yn elynol arno oedd y dosbarth a ddywedent am y *bobl*, "melldigedig ydynt." Galwent hwy Ef yn "gyfaill publicanod." "Y mae hwn yn derbyn pechaduriaid." Eithaf gwir. Ond yr oedd yr Iesu yn gallu gwneyd hyn oll heb fyned yn bechadur ei hunan. Nid hwy oedd yn gosod argraff eu pechod arno Ef, ond Efe oedd yn gosod delw ei burdeb arnynt hwy. Daeth i'r cyffyrddiad agosaf â phechod y byd, heb gyfranogi o hono, heb gael ei lychwino ganddo. "Ni wnaeth bechod." Yr oedd gyda phechaduriaid ymhob man, ond o ran ei gymeriad arosodd drwy y cyfan yn "ddidoledig oddiwrth bechaduriaid."

Pa gyfrif a roddir am hyn oll? Y mawredd moesol sydd yn argraffedig ar yr holl gymeriad; cymeriad sydd yn sefyll wrtho ei hunan yn ei wreiddioldeb, yn ei unoliaeth, ac yn ei gydbwysedd; cymeriad sydd yn gyfuniad o bob rhinwedd y gall meddwl dyn ei ddymuno, neu gyrchu tuag ato. Pa fath ddyn yw hwn? Onid yw syllu ar y portrëad geir o hono yn y pedair Efengyl yn peri i ni ailadrodd geiriau y canwriad wrth droed y groes: "Yn wir Mab Duw oedd y dyn hwn!"

DYLANWAD EI GYMERIAD.

Mae hyn yn cael ei gydnabod ar bob llaw, mai y dylanwad cryfaf o fewn y byd ydyw cymeriad yr Iesu. Credir hyn yn ddiysgog gan Gristionogion, ac fe addefir yr un peth gan wyr nad ydynt yn cysylltu eu hunain âg unrhyw ffurf weledig ar Gristionogaeth. Ymysg y dosbarth olaf gellir enwi awdwr y cyfrolau gwerthfawr ar "Hanes Gwareiddiad a Moesoldeb yn Ewrob." Ni fynnai yr awdwr hwnnw, fel y credwn, gael ei gyfrif ymysg amddiffynwyr Cristionogaeth y cyfnod hwn. Hanesydd beirniadol ydyw efe am yr oll a ddêl yn ei ffordd, ac felly, hawlia gael ei wrandaw fel tyst diduedd. Ond attolwg, beth yw ei dystiolaeth

ar y pwnc sydd genym mewn llaw? Wel, yn un o'r cyfrolau a nodwyd *(History of Morality from Augustus to Charlemagne*, Vol. II.), ceir y brawddegau a ganlyn:—"Cristionogaeth a gyflwynodd i'r byd gynllun-gymeriad *(ideal character)*, yr hwn, drwy gyfnewidiadau deunaw canrif sydd wedi llanw calonnau dynion a serch brwdfrydig; a'r hwn sydd wedi profi ei hun yn abl i weithredu ar bob oedran, ar bob cenedl, ar bob tymheredd, ac ar bob sefyllfa. Y mae y cymeriad hwn wedi bod, nid yn unig y patrwm uchaf o rinwedd, ond y symbylrwydd cryfaf yn yr ymarferiad o hono; ac wedi dylanwadu mor ddwfn fel y gellir yn wirioneddol dystiolaethu fod yr hanes syml am dair blynedd fer o fywyd ymarferol, wedi gwneyd mwy i adnewyddu a thyneru dynolryw na holl draethodau yr athronwyr, ac na holl anogaethau moesolwyr y byd. Mewn gwirionedd, y cymeriad hwn sydd wedi bod yn ffynnonell yr oll sydd oruchaf a phuraf yn y bywyd Cristionogol. Yn nghanol yr holl bechodau a'r gwendidau, yn nghanol yr holl dwyll-offeiriadaeth, yr erlid, a'r penboethni sydd yn anurddo hanes yr Eglwys, y mae wedi cadw yn nghymeriad ac esiampl ei Sylfaenydd egwyddor fythbarhaol o adgenedliad."

Dyna dystiolaeth un nad yw yn "canlyn gyda ni" fel proffeswr Cristionogol, mewn llawer o bethau. Ond fel beirniad, fel hanesydd, angenrhaid a osodwyd arno i ddwyn y dystiolaeth fwyaf diamwys i gymeriad y dyn Crist Iesu. Craffer ychydig eto ar ei ymadroddion; y maent yn haeddu gwneuthur o honom hyn iddynt. Beth sydd yn cael ei addef yn y dyfyniad uchod?

1. Fod Cristionogaeth wedi cyflwyno i'r byd gynllun o gymeriad — un nas gellir rhagori arno. Yn awr, mae pethau pwysig wedi cael eu trosglwyddo i'r byd drwy gyfundrefnau ereill, hen a diweddar; ond i grefydd y Testament Newydd yr ymddiriedwyd y gorchwyl o gyflwyno i'r holl fyd yr un peth mawr ag y bu calon dyn yn breuddwydio am dano drwy yr oesau—cymeriad perffaith.

2. Fod y cymeriad hwn, drwy gyfnewidiadau deunaw canrif, wedi llanw calonau dynion â'r cariad mwyaf brwdfrydig. Addefiad rhyfedd a phwysig ydyw hwn. At bwy arall y gellir cymhwyso y peth? Ceir hanes dynion yn dylanwadu yn rymus ar eu cydoeswyr; yn ennill calonau i'w dilyn ac i aberthu er eu mwyn. Ond, wedi iddynt gilio o'r golwg, y mae y brwdfrydedd yn

darfod, a'r swyn yn pallu. Daw eraill i deyrnasu yn eu lle. Ond wele eithriad i'r rheol. Dyma un cymeriad nad ydyw deunaw canrif ddim wedi llacio yr afael sydd iddo ar feddwl y byd. Parhâ i lanw calonnau â chariad brwdfrydig. Y mae ei orsedd yn serchiadau plant dynion yn gadarnach nag erioed. Y mae ei ragfynegiad yn cael ei sylweddoli yn mhob gwlad: "Mi a dynnaf bawb ataf fy hun." Nid oes neb ond Efe yn medru *tynnu* pawb. Dylanwada ar bob rhywogaeth o feddwl, pob dosbarth mewn cymdeithas. Mae cariad Crist fel yr arddangosir ef yn ei gymeriad, yn deffro teimladau dyfnaf y galon, ac yn cynyrchu brwdfrydedd nas gall un dylanwad arall ei oeri na'i ddiffodd.

3. Fod ei ddylanwad mor ddwfn fel y gellir tystio iddo wneyd mwy i adnewyddu a thyneru y ddynoliaeth na holl draethodau yr athronwyr, a holl wersi moesolwyr y byd. Mae cymdeithasu a chymeriad yr Iesu yn dwyn dynion i feddiant o fywyd newydd, a'r bywyd hwnnw yn argraffu ei hun mewn llinellau o dynerwch ar eu holl weithredoedd: Beth sydd yn rhoddi cyfrif am y bywyd, yr ynni meddyliol a chymdeithasol, sydd yn

nerthol-weithio yn y gwledydd hynny lle y mae Cristionogaeth wedi rhoddi ei throed i lawr? Mae yr esboniad i'w gael yn nghymeriad yr Iesu. Pa le y mae cuddiad cryfder yr ysbryd dyngarol, yr ymdrechion clodwiw i leddfu poen a thrueni y ddynoliaeth? Mae hyn oll yn deilliaw o gymeriad yr Hwn a rodiai oddiamgylch gan wneuthur daioni. O hono ef y mae rhinwedd yn myned allan i fywhau, i iachau, ac i dyneru ŷ ddynoliaeth.

Addefir, fel y gwelir uchod, fod yr Iesu wedi gwneyd mwy yn y cyfeiriadau hyn na holl ddysgawdwyr yr oesau ynghyd. Saif ar fynydd Hanes, fel y gwnai ar fynydd y gweddnewidiad, mewn disgleirdeb difrycheulyd yn *unig*—heb gystadlydd! Pwy a gyffelybir iddo Ef ymysg meibion y cedyrn? Mae yr hyn a ddywedodd ein pêr-ganiedydd am yr angelion, yn wirionedd am holl anfarwolion amser:—

"Holl angelion nef gwmpasog,
Sydd o nifer gwlith y wawr,
Pe b'ai 'u tegwch a'u hawddgarwch
Oll mewn un rhyw angel mawr;
T'w'llai 'i harddwch mewn mynydyn
Toddai 'i ddoniau maith yn un,
Wrth ymddangos i'w gymharu
A'r hwn wisgodd natur dyn."

Ei gymharu â'r Iesu! Ni fynai yr un angel yn y nef fod yn euog o'r fath ryfyg. "Ac addoled holl angelion Duw ef!" Yr oedd Gabriel, mae yn ddiau, yn cynrychioli ei frodyr angelaidd pan ddywedai, "Hwn a fydd mawr, ac a elwir yn Fab y Goruchaf." Ac os dyna syniad yr angel, pa faint mwy cyfaddas ydyw yn ei berthynas â dynion? Pe cesglid holl dywysogion ymherodraeth y meddwl i'r un man; ïe, pe gwneid un athrylith lachar, fawreddog o'r oll,—

"T'w'llai 'i harddwch mewn mynydyn,
Toddai 'i ddoniau maith yr un,
Wrth ymddangos i'w chymharu
A'r hwn wisgodd natur dyn."

Addoled holl feibion athrylith Ef! Ac y mae y dynion mwyaf, galluocaf, sancteiddiaf, wedi ac yn ymgrymu ger bron cymeriad y dyn Crist Iesu. Y maent, gyda'r doethion, yn ei gydnabod fel yr Hwn a anwyd yn Frenin, ac yn offrwm "aur, thus, a myrr" eu calonnau ger ei fron. Ac y mae meddyliau cyffredin, heb un argraff o goethder na dysg, fel y bugeiliaid gynt, yn cael eu llanw yr un ffunud gan ogoniant y cymeriad, ac yn

"Rhyfeddu byth y geni 'n dlawd,
Y byw dan wawd a chroesau;
Y dyoddef cosb heb unrhyw fai,
A'r ufuddhau heb rwymau."

Ond nid mawredd *graddau* yn unig ydyw mawredd cymeriad yr Iesu; y mae, hefyd, yn fawredd o *natur* ac *ansawdd* hollol wahanol i bob mawredd arall. Nid yn unig mae mawredd y cymeriad yn uwch, ond y mae cymeriad y mawredd yn wahanol. Y mae yr Iesu yn fwy na phawb am ei fod yn wahanol i bawb. Yr oedd Efe ei hun yn hòni ac yn dysgu hyn. Seiliai ei holl addysg ar ei Bersonoliaeth ei hun: "Yr wyf fi yn dywedyd i chwi." Cyflawnai ei wyrthiau yn yr un modd: "Yr wyf yn dywedyd wrthyt, Cyfod a rhodia." Cyhoedda ei hun yn oleuni y byd, bara y bywyd, a ffynnonell gwirionedd. Honna y berthynas agosaf â'r Dwyfol. "Myfi ydwyf oddiuchod." Nid esgyn i uchelderau gwirionedd mewn munydau ysbrydoledig yr ydoedd Efe, ond sefyll yn ddigryn ar yr uchelderau hynny, gan gyfarch y byd oddiarnynt. Llefarai y gwirioneddau mwyaf aruchel a ddisgynodd ar glustiau dyn erioed heb un arwydd o ymdrech. Yr oedd cwestiynau mawrion bywyd a bodolaeth yn glir iddo Ef,—y dyfodol yn noeth ac yn agored o flaen ei olygon. Treiddiai i gilfachau cudd y galon ddynol, gwyddai beth oedd mewn dyn. Ond gesyd ei hun yn ogyfuwch â Duw: "Myfi a'r Tad un ydym." Y mae yn derbyn gwarogaeth

Ddwyfol. Rhyfedd a dieithriol ydyw ei agwedd at bechod. Y mae ei ymadroddion yn erbyn drwg yn llosgi fel ffwrn; ond honna awdurdod Ddwyfol i faddeu pob pechod, ac yr oedd ei gyhoeddiad o bardwn yn disgyn fel miwsig Paradwys ar ysbryd yr euog edifeiriol. Geilw bawb ato ei Hun, ac addawa orphwysdra enaid i bob un a ufuddha i'w air. Dywed hefyd, fod peidio ei arddel ger bron dynion yn arwain i wrthodiad ganddo Yntau, pan ddel yn ngogoniant ei Dad i farnu y byw a'r meirw.

Yn y pethau hyn, a'u cyffelyb, saif yn wahanol i bob cymeriad dynol y gwyddis am dano. Teimlir y buasai yn rhyfyg, ïe, yn wallgofrwydd yn neb arall i geisio ei efelychu. Ond ynddo Ef yr oedd yn hollol naturiol, er ei fod yn gwbl groes i hanes gyrfa pawb eraill. Wele, beth newydd dan yr haul!

> "Yn mhlith a fu, neu eto ddaw,
> 'Does debyg iddo Ef."

Pa fodd yr esbonir ei ymddangosiad yn y byd? O ba le y daeth? Cymeriad Crist, ai o'r nef yr ydoedd, ai o ddynion? Mae rhan o'r byd, fel y Phariseaid gynt, yn petruso ateb y cwestiwn. Os dywedant o'r ddaear, rhaid iddynt roddi cyfrif am dano ar yr un

egwyddor â dynion eraill. Ond pa fodd y gwneir? Dywed deddf dadblygiad: "Nid yw yr ateb ynof fi." Ac etyb Iuddewiaeth: "Nid ydyw ynof fi." Ond os dywedant mai o'r nef, yna rhaid cydnabob ei ddwyfoldeb, a hynny nis mynant. Ond beth a ddywedai y rhai oedd yn ei adwaen oreu? Beth oedd tystiolaeth yr un fu yn pwyso ar ei fynwes? Onid hyn: "Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd ac a drigodd yn ein plith ni. Ac ni a welsom ei ogoniant Ef, gogoniant megis yr unig-anedig oddiwrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd!"

Cyn terfynu, dymunem adgoffa y gwirionedd mai cymeriad Crist sydd yn rhoddi cymeriad i Gristionogaeth. Y mae ei hawliau fel crefydd y byd yn gorwedd ar gymeriad ei Sylfaenydd. Y mae iaith y Cristion unigol yn eithaf cyfaddas i'r grefydd Gristionogol ymhob oes:—

"Pe unwaith y darfyddai
Awdurdod Calfari,
Darfyddai pob cysuron
Ar unwaith genyf fi;
O bawb, yn sicr, byddwn
Y truenusaf un,
Fe'm llyncai'r bedd dychrynllyd
Yn fuan iddo 'i hun."

Gall y gelyn ymosod, a llwyddo i ddymchwel rhyw bethau a ystyrid yn brofion—yn *evidences* —mewn amser aeth heibio; ond y mae un peth yn aros yn ddiysgog—cymeriad yr Iesu! Y mae Hwn ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd.

Dyna neillduolrwydd y grefydd Gristionogol; y mae ei sail a'i sylwedd mewn *cymeriad.* Gallai Mahometaniaeth fyned rhagddi heb Mahomet. Nid yw sylfaenwyr hen grefyddau India a China ond cysgodion anelwig yn ngwyll hanesiaeth. Ond pe tynid cymeriad yr Iesu o Gristionogaeth, fe syrthiai yr holl gyfundrefn i'r llawr. Byddai y Shecinah wedi ei golli ohoni, a'i chysegr sancteiddiolaf yn ddim ond adfail dywell ac oer. Ond yn y meddiant o gymeriad ei Sylfaenydd, fe erys yn ddisigl yn ngwyneb pob rhyferthwy, a "phyrth uffern nis gorchfygant hi."

Y mae yn canlyn yn naturiol mai rhagorfraint Cristionogion ydyw syllu ar y cymeriad bendigaid hwn; cymdeithasu â'i hanes; myfyrio ar ei brydferthion. Fe ddywedir fod llygaid y sawl sydd yn edrych ar yr haul yn myned yn heulog. Mae yr haul yn gosod ei ddelw ynddynt. Y mae hynny yn wir, mewn

ystyr uwch, am y rhai sydd yn edrych ar Oleuni y Byd; cyfnewidir hwy i'r unrhyw ddelw. Sylweddolir iddynt yr addewid: "Dy lygaid a welant y Brenin yn ei degwch." Ac yn ngoleuni heulog ei gymeriad Ef, daw y meddwl i dystiolaethu am dano: "Ti yw Mab Duw, Ti yw Brenin Israel." Daw y galon hefyd i ddirgrynu mewn addoliad ger ei fron, gan gyffesu, "Fy Arglwydd a'm Duw."

YR IESU'N FWY NA'R HANES.

"*Eithr y pethau hyn a ysgrifenwyd, fel* ——."—IOAN XX. 31.

PETH naturiol i awdwr ar derfyn ei waith ydyw adolygu,—edrych yn ol ar yr hyn a ysgrifenwyd ganddo. Dyna a wnaeth Ioan yn niwedd ei Efengyl. Ac y mae yn gwneyd y datganiad a ganlyn—fod y llyfr yn anorphenol, a'i fod felly o angenrheidrwydd. "Llawer o arwyddion eraill a wnaeth yr Iesu. . . . . y rhai nid ydynt ysgrifenedig yn y llyfr hwn." Detholion yw yr oll a ysgrifenwyd am dano Ef. Pwy a draetha ei oes? Y mae'r Iesu yn fwy na'r hanes, y Gwrthddrych yn fwy na'r llyfr —pob llyfr y gellir ei ysgrifenu am dano. Ac am hynny y mae pob ymgais yn diweddu heb orphen, yn darfod heb derfynu.

Y mae anorphenedd ambell lyfr, llawer bywgraffiad, yn codi o ddiffyg defnyddiau. Ond y mae ffurf derfynedig yr Efengylau yn codi, nid o brinder, ond o gyflawnder ac o fawredd y Gwrthddrych ei hun. Yr oedd Luc wedi

ysgrifenu mewn trefn, ac wedi dilyn pob ffaith yn fanwl o'r dechreuad: ond pan yn cyflwyno yr hanes i'r byd, efe a ddywed nad ydoedd ond wedi gallu sylwi ar y "pethau a *ddechreuodd* yr Iesu eu gwneuthur a'u dysgu." A dyna dystiolaeth pêr-emynydd Cymru,—

"Mae'r Iesu'n fwy na 'i roddion,
Mae'r Iesu'n fwy na'i râs,
Yn fwy na'i holl weithredoedd,
O fewn ac oddi faes."

Ac os ydyw Efe yn fwy na'i weithredoedd, y mae hefyd yn fwy na'r hanes,—yr oll a ellir ei fynegi am dano. Fel y mae'r haul yn fwy na'i belydrau, y môr yn fwy na'i donnau, yr hâf yn fwy na'i flodau,—felly y mae y Bywyd a bortreadir yn yr Efengylau yn fwy, yn ogoneddusach na'r oll y gall iaith ac ymadrodd ei dystiolaethu a'i gynwys. Rhaid i bob awdwr gyffesu gydag Ioan y Difeinydd fod yna lawer o "arwyddion eraill," y rhai nid ydynt "ysgrifenedig yn y llyfr hwn."

Beth yw amcan yr hanes? Ai boddio cywreinrwydd? Ceir llyfrau, hen a diweddar, wedi eu darpar ar gyfer y dueddfryd hon. Mawr yw yr ymdrech i godi'r llen oddiar ddirgelion meddwl a bywyd, ac i borthi chwilfrydedd dyn. Ond yr oedd pellder di-

fesur rhwng y syniad hwn ag amcan syml, dyrchafedig yr Efengylau. "Y pethau hyn a ysgrifenwyd." I ba beth? Ai fel chwaneg-iad at lenyddiaeth, ac er mwyn gosod yr hanes yn mysg ceinion y gwledydd, a pheri iddo ennill sylw ac edmygedd ar gyfrif ei dlysni, ei burdeb, a'i berffeithrwydd? Nage: fel amcan. Y mae yr Hanes hwn wedi cyfoeth-ogi llenyddiaeth y byd. Y mae Bywyd yr Iesu, fel portread llenyddol, yn anghydmarol.

"Gwyn a gwridog yw fy Arglwydd,
Gwyn a gwridog, hardd ei wedd."

Pwy a gystedlir iddo yn holl orielau celf a llên? Onid ei Fywyd ydyw goleuni llenydd-iaeth—goleuni'r Byd?

Ond yr oedd neges yr hanes yn uwch na chynyrchu llenyddiaeth, neu ennyn edmygedd y meddylgar a'r coeth. Yr amcan syml ydoedd meithrin ffydd: tywys dynion o anialwch amheuon i wlad yr Iesu, fel y caffont fywyd yn ei enw Ef.

Y mae yna berthynas rhwng *ffydd* a *bywyd*. Ac y mae i'r bywyd hwn ei ammodau. Y mae yn fywyd *yn* yr Iesu. Sonir am enwau *byw*. Ond enw yr Iesu yn unig sy'n *cyfranu* bywyd. Ac y mae ffydd yn ei dderbyn.

Daw yr haf i'r goedwig ac i'r maes. A dyna'r glaswellt, y blodau, a'r coed yn ymddadebru, ac yn talu gwarogaeth i'w ddyfodiad.

"Ac y mae, hefyd, lawer o bethau a wnaeth yr Iesu, y rhai ped ysgrifenid hwy bob yn un ac un, nid wyf yn tybied y cynhwysai y byd y llyfrau a ysgrifenid."



CWMNI'R WASG GENEDLAETHOL GYMREIG, CAERNARFON.

KV-731-378